

2016

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021

(Mabwysiadwyd ar 23 Tachwedd 2010)

5ed Adroddiad Monitro Blynyddol 2016

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Hydref 2016



| | | | |
|--|-----------|--|-----------|
| 1. Cyflwyniad | 03 | 5. Monitro polisiau'r CDLI | 17 |
| 2. Crynodeb gweithredol | 04 | 6. Dangosyddion gorfodol | 19 |
| 3. Newidiadau cyd-destunol | 06 | 7. Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol | 20 |
| Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Chwefror 2014 | 06 | 8. Casgliadau'r Asesiad | 22 |
| Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaid, Chwefror 2014 | 07 | A yw amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni? | 22 |
| Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Ionawr 2015 | 08 | A oes unrhyw bolisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu? | 23 |
| Deddf Cynllunio (Cymru), Gorffennaf 2015 | 08 | 9. Argymhellion | 27 |
| Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol: 2il Argraffiad, Awst 2015 | 09 | Argymhellion ynghylch camau gweithredu i sicrhau y caiff polisiau sy'n methu eu gweithredu | 27 |
| Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8, Ionawr 2016 | 10 | A ddylid adolygu'r Cynllun Mabwysiedig? 29 | |
| Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Mawrth 2016 | 10 | Atodiad 1: | |
| Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | 11 | Dangosydd gorfodol – Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd a'r cyflenwad tir ar gyfer tai | 31 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 12 | Atodiad 2: | |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 12 | Trosolwg o waith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad Cynaliadwyedd | 32 |
| I gloi | 12 | Atodiad 3: | |
| 4. Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad Cynaliadwyedd | 13 | Polisiau a gyrhaeddodd y trothwy | 33 |
| Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol – canlyniadau 2016 | 13 | Atodiad 4: | |
| Cymharu â'r blynyddoedd blaenorol | 14 | Perfformiad ar sail amcanion y CDLI | 36 |
| I gloi | 16 | Atodiad 5: | |
| | | Monitro dyraniadau'r CDLI | 40 |

Rhestr Termau a Byrfoddau

| | |
|-------------------------|--|
| CDLI Mabwysiedig | <u>Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili 2010</u> |
| CDLI Newydd | <u>Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2031</u> |
| CCBC | <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</u> |
| AMR | <u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> |
| WG | <u>Llywodraeth Cymru</u> |
| CIL | <u>Ardoll Seilwaith Cymunedol</u> |
| Local Councils | <u>Cynghorau Tref, Cynghorau Cymunedol</u> |
| SDP | <u>Cynllun Datblygu Strategol</u> |
| WPA | <u>Asesiad Cynllunio Gwastraff</u> |
| LCA | <u>Asesiad Cylch Bywyd</u> |
| NDF | <u>Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</u> |
| DNS | <u>Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol</u> |
| PPW | <u>Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 8</u> |
| Well Being Act | <u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u> |
| DAS | <u>Dylunio a Datganiadau Mynediad</u> |
| JHLAS | <u>Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai</u> |
| TAN 21 | <u>Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff</u> |
| TAN 23 | <u>Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd</u> |
| TAN 12 | <u>Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio</u> |
| TAN 1 | <u>Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai</u> |
| TAN 4 | <u>Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi</u> |
| TAN 15 | <u>Datblygu a Pherygl o Lifogydd</u> |
| MTAN | <u>Nodyn Cyngor Technegol Mwynau</u> |
| MW | <u>Megawatiau</u> |

1. Cyflwyniad

- 1.1** Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 23 Tachwedd 2010. Ar ôl mabwysiadu ei CDLI mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol dan Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 1.2** Mae'r ddogfen hon, sef y pumed Adroddiad Monitro Blynyddol, yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 ac mae gofyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2016.
- 1.3** Prif nod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Strategaeth y CDLI a Pholisïau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni. Felly, mae gan yr adroddiad ddwy brif swyddogaeth: yn gyntaf, ystyried a yw'r polisiau a nodir yn y broses fonitro'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus; ac yn ail, ystyried y cynllun yn ei gyfarwydd o'i gymharu â'r holl wybodaeth a gasglwyd, er mwyn penderfynu a oes angen cynnal adolygiad llawn neu rannol o'r cynllun.



- 1.4** Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol 2013, a luniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, i'r casgliad bod Strategaeth Ddatblygu'r CDLI yn parhau'n gadarn ond y byddai angen newid y polisi mabwysiedig ac y dylid adolygu'r cynllun oherwydd yr angen i fynd i'r afael â'r cyflenwad tir ar gyfer tai a'r angen am safleoedd newydd ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- 1.5** Dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013, cyhoeddwyd y Strategaeth a Ffefrir a dogfennau Fersiwn Adneu'o'r CDLI Newydd ac ymgynghorwyd yn eu cylch. Yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Gorffennaf 2016 penderfynodd y Cyngor ofyn am drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghylch y posibilrwydd o greu Cynllun Datblygu Strategol, a phenderfynodd dynnu Fersiwn Adneu'o'r Cynllun Newydd yn ôl.
- 1.6** O ystyried yr uchod, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ymdrin â'r canlynol:
- Crynodeb o'r prif ganfyddiadau o ran y gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/yr Arfarniad Cynaliadwyedd, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016;
 - Crynodeb o'r prif ganfyddiadau o ran Polisiau'r Strategaeth, ar gyfer y cyfnod monitro rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016;
 - Y dangosyddion statudol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
 - Y diweddaraf am weithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol;
 - Y camau gweithredu sydd i'w cymryd.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru, sy'n monitro a yw'r CDLI yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ai peidio. Diben cyffredinol yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw nodi a yw Strategaeth y CDLI neu unrhyw rai o bolisiau'r Strategaeth yn methu â chael eu gweithredu ac, os felly, nodi'r camau i fynd i'r afael â hynny.

2.2 Dyma'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi'i baratoi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021, ac mae'n monitro'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016.

2.3 Mae gwaith monitro'r cynllun ar gyfer 2015/16 yn dangos bod dau o bolisiau'r Strategaeth wedi cyrraedd y trothwy o'r newydd, sef SP2 – Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Gogleddol ac SP17 – Hybu datblygu masnachol, a bod tri pholisi a gyrhaeddodd y trothwy yn Adroddiad 2015 heb gyrraedd y trothwy yn Adroddiad 2016, sef SP13 – Canolfan hamdden yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, SP16 – Rheoli twf cyflogaeth ac SP22 – Cyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg. Mae pum polisi a gyrhaeddodd y trothwy yn Adroddiad 2015 hefyd wedi cyrraedd y trothwy yn Adroddiad 2016, sef SP4 – Strategaeth aneddiadau, SP8 – Diogelu mwynau, SP10 – Gwarchod y dreftadaeth naturiol, SP14 – Holl ofynion o ran tai ac SP15 – Targed ar gyfer tai fforddiadwy.

2.4 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 hefyd yn cynnwys canlyniadau gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd, sy'n ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r canllawiau cenedlaethol. Canfu'r gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd, sydd wedi'i gynnwys ym Mhennod 4 Adroddiad 2016, fod newid

sylweddol tuag at ganlyniadau mwy positif yn y canlyniadau monitro a bod gostyngiad cyffredinol yn nifer y canlyniadau negatiff, er bod arwyddocâd y canlyniadau positif ychydig yn llai eleni. Yn Adroddiad 2015 gwelwyd symudiad tuag at fwy o ganlyniadau negatiff na'r hyn a welwyd yn flaenorol, ond mae Adroddiad 2016 yn dangos bod y sefyllfa wedi dychwelyd i fod yn un fwy positif yn gyffredinol. O asesu'r canlyniadau ar sail blwyddyn mabwysiadu'r cynllun, h.y. 2010, gwelir symudiad arwyddocaol tuag at ganlyniadau positif sy'n arwain at effeithiau positif i'r amgylchedd cyfan.

2.5 Mae hefyd yn ofynnol i Adroddiad 2016 gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r 12 o ddangosyddion gorfodol, a gaiff eu pennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion hynny wedi'u cynnwys ym Mhennod 6 Adroddiad 2016.

2.6 Mae trosolwg o ddata monitro'r CDLI ar gyfer Adroddiad 2016 yn taflu goleuni diddorol ar y modd y mae'r CDLI wedi'i weithredu dros y cyfnod monitro. Mae'r canlynol o ddi-ddordeb arbennig ar gyfer 2016:

- Gostyngodd y gyfradd adeiladu tai flynyddol yn sydyn eleni i 187, o 414 yn Adroddiad 2015.
- Gostyngodd y cyflenwad tir ar gyfer tai o 1.9 mlynedd yn Adroddiad 2015 i'r sefyllfa bresennol, sef 1.5 mlynedd (gan ddefnyddio'r dull cyfrifo y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, sef y dull gweddilliol).
- Cododd cyfartaledd pris tŷ ar gyfer y fwrdeistref sirol 13%, o £98,881 yn 2015 i'r ffigur presennol, sef £111,890.
- Gostyngodd y gyfradd diweithdra flynyddol o 8.6% i 6.5%.
- Cynyddodd nifer y preswylwyr sydd mewn cyflogaeth o 76,600 i 79,500.

- Cyrhaeddodd gwaith datblygu ar gyfer cyflogaeth yn ystod y flwyddyn fonitro ei lefel uchaf, sef 12.89 hectar, ers y cyfnod monitro cyntaf.
 - Cynyddodd lefelau cymudo 2.5% yn gyffredinol, ond mae'r ffigur hwn wedi amrywio yn ystod yr holl flynyddoedd y mae'r CDLI Mabwysiedig wedi cael ei fonitro.
 - Gostyngodd y cyfraddau unedau gwag yn y prif drefi, ac eithrio'r gyfradd ar gyfer Caerffili, a arhosodd yr un fath. Cyrhaeddwyd y trothwy yn achos Bargod, ond mae hynny oherwydd effaith barhaus y gwaith adfywio o bwys sy'n mynd rhagddo.
 - Gostyngodd nifer yr ymwelwyr â Bargod a Choed Duon islaw eu trothwyau, ond roedd hynny oherwydd problemau gyda'r peiriannau cyfrif yn yr ardaloedd hynny, yn benodol yn ystod cyfnodau pan nad oedd y camerâu'n gweithio. Gostyngodd nifer yr ymwelwyr â Chaerffili 5% o gymharu â'r llynedd.
 - Cynyddodd lefel bodlonrwydd cwsmeriaid â'r parciau gwledig o 83% i 85% a chafwyd 1,157,704 o ymwelwyr, sydd bron 200,000 yn fwy.
 - Er nad oedd yr adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am fonitro mwynau ar gael ar gyfer y broses fonitro eleni, mae'r ffigurau ar gyfer cynhyrchu a defnyddio mwynau wedi bod yn is o lawer na'r ffigurau monitro, ac nid oes rheswm i dybio bod y duedd hon wedi newid. Er bod y ffigurau'n isel, maent o ganlyniad uniongyrchol i'r diffyg galw oherwydd yr amodau economaidd.
 - O safbwynt datblygu cyfleusterau cymunedol, gwelwyd cynnydd sylweddol o 8% yn ystod y flwyddyn.
- 2.7** Mae Adroddiad 2016 hefyd yn cynnwys y datganiad monitro blynyddol ar gyfer y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma'r ail flwyddyn i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys y datganiad hwn. Nododd y gwaith o fonitro'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer 2016 fod ychydig dros £39,000 wedi'i gasglu mewn refeniw, a bod £600 ychwanegol wedi dod i law ar ffurf taliadau ychwanegol. Mae ychydig yn llai na £5,900 wedi'i drosglwyddo i Gynghorau Lleol (Cynghorau Tref a Chymuned) ac mae ychydig yn llai na £2,000 wedi'i ddefnyddio i dalu costau paratoi a gweithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae ychydig yn llai na £32,000 yn weddill yng nghronfa'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i gynorthwyo i ariannu seilwaith priodol.
- 2.8** Mae Adroddiad 2016 yn dod i'r casgliad bod y cynllun yn parhau i esgor ar effeithiau positif ar yr amgylchedd cyffredinol, a bod cynnydd sylweddol yn parhau i gael ei wneud o safbwynt cyflawni rhan helaeth o'r CDLI.
- 2.9** Arweiniodd Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 at gynnal adolygiad o'r Cynllun Mabwysiedig, a gyrhaeddodd y cyfnod adnewo. Ym mis Gorffennaf 2016 penderfynodd y Cyngor ofyn am gymeradwyaeth Weinidogol i dynnu Fersiwn Adnewo'r CDLI Newydd yn ôl, a gofyn am gytundeb i ddechrau paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn gynnar.
- 2.10** Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2016, cynhaliodd yr Arweinydd ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Adfywio, yr Aelod Cynulliad dros Gaerffili, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Cymru ac uwch-weision sifil ar 28 Medi 2016.
- 2.11** Cadarnhawyd yn y cyfarfod nad yw cael cymeradwyaeth Weinidogol i dynnu cynllun yn ôl yn un o ofynion y Rheoliadau CDLI ar hyn o bryd, a bod tynnu'r CDLI Newydd yn ôl yn fater i'r Cyngor benderfynu yn ei gylich. Ni fynegodd Gweinidog Llywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad ffurfiol i'r bwriad i

dynnu'r cynllun yn ôl, ond mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r Cyngor fod yn agored i benderfyniadau cynllunio a wneir yn dilyn apêl yn ystod y cyfnod hwn.

2.12 O ran y cyflenwad pum mlynedd o dir a chyllid posibl i gynnig cymhellion i ddatblygu tir llwyd a datblygu mewn ardaloedd llai hyfyw, cytunwyd y byddai cyfarfod arall yn cael ei drefnu rhwng y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ac uwch-weision sifil o Lywodraeth Cymru i drafod y materion ymhellach.

2.13 Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau CDLI, mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor basio penderfyniad penodol i dynnu'r CDLI Newydd yn ôl yn ffurfiol. Yna, caiff y cynllun ei dynnu'n ôl yn unol â gofynion Rheoliad 26 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).
planning through appeal during this period.



3. Newidiadau cyd-destunol

- 3.1** Mae angen ystyried newidiadau allanol yn rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, ac ystyried pa effaith y mae'r newidiadau hynny'n ei chael ar y modd y caiff polisiâu'r CDLI eu gweithredu. Gan fod Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 wedi argymhell y dylid cynnal adolygiad o'r CDLI, a bod y Cyngor wedi cytuno â hynny ac wedi dechrau cynnal yr adolygiad, ymdriniwyd â'r newidiadau cyd-destunol yng nghyswllt Adroddiadau Monitro Blynyddol 2014 a 2015 drwy nodi'n syml iawn y byddai'r gofynion newydd yn cael eu hystyried drwy'r broses adolygu.
- 3.2** Fodd bynnag, mae'r CDLI Newydd wedi'i dynnu'n ôl bellach a bydd angen i'r newidiadau cyd-destunol o gyfnodau Adroddiadau Monitro Blynyddol 2014 a 2015 gael eu hystyried yn awr ochr yn ochr â'r newidiadau ar gyfer cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2016. Ymdrinnir â saith newid yn y bennod hon ac maent wedi'u nodi isod.

Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Chwefror 2014

- 3.3** Dyma fersiwn ddiwygiedig o fersiwn flaenorol TAN 21, a oedd yn cyflwyno pedwar prif newid, sef:
- **Cydnabod y dylai Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol gael eu diddymu.**
Bydd dileu'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn golygu na fydd yn rhaid ystyried y ddogfen hon wrth baratoi cynlluniau sydd wrthi'n cael eu llunio.
 - **Cyflwyno gofyniad ynghylch casglu data, monitro, a llunio adroddiadau blynyddol a ddylai gael eu defnyddio i gefnogi cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.**
Bydd y wybodaeth hon yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu sydd wrthi'n cael eu llunio, a pharatoi adolygiadau ohonynt.

- **Cyflwyno isafswm capasiti tirlenwi ar gyfer pob rhanbarth, sy'n gysylltiedig â throthwy a fyddai'n arwain at orfod chwilio am leoliadau addas ar gyfer tirlenwi.**

Mae'r drefn hon yn gosod lefel a throthwy a fyddai'n arwain at orfod chwilio am safle ar gyfer cyfleuster newydd. Gallai hynny effeithio ar CDLlau cyfredol pe bai'r trothwy'n cael ei gyrraedd, oherwydd byddai angen i safle newydd gael ei glustnodi drwy'r CDLI perthnasol..

- **Diweddar cyfeiriad polisi er mwyn galluogi cyfleusterau gwastraff i ddringo'r hierarchaeth wastraff drwy gyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff.**

Dyma newid gweithdrefnol sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ddangos eu bod wedi ystyried yr hierarchaeth wastraff a'u cyfraniad at gyflawni amcanion Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac amcanion Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, a dylai unrhyw achos o weithredu'n groes i'r hierarchaeth gael ei gyfiawnhau ar sail y canlyniad amgylcheddol gorau, drwy ddefnyddio Asesiad Cylch Bywyd. Mae hwn yn newid ymarferol nad yw'n effeithio ar y CDLI.

- 3.4** At ei gilydd mae'r newidiadau a nodir yn y fersiwn ddiwygiedig o TAN 21 yn newid y wybodaeth gefndir ar gyfer CDLlau, yn hytrach na'u bod yn newid y polisi cynllunio ei hun. Felly, nid yw'r newidiadau yn effeithio ar safbwynt polisi'r CDLI Mabwysiedig. Yr eithriad yw'r gofyniad i chwilio am safle os cyrhaeddir trothwy ar gyfer capasiti tirlenwi rhanbarthol, lle gallai fod yn ofynnol i safleoedd newydd gael eu hyrwyddo drwy CDLlau. Nid yw'r sefyllfa hon wedi codi hyd yma, felly nid oes angen gwneud unrhyw newid i safbwynt polisi'r CDLI.

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd, Chwefror 2014

3.5 Mae hwn yn Nodyn Cyngor Technegol newydd sy'n ymdrin â pholisi ar gyfer datblygu economaidd ac sy'n ymhelaethu ar y canllawiau a nodir ym Mhennod 7 Polisi Cynllunio Cymru. Dyma'r prif faterion sy'n codi o TAN 23, sy'n ymwneud â'r CDLI Mabwysiedig:

- **Mae'n mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn darparu tystiolaeth gadarn i lywio'r gwaith o baratoi eu cynlluniau datblygu.**

Bydd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys dwy ran, sef trosolwg bras o'r economi gyfan er mwyn llywio gweledigaeth economaidd ar gyfer y cynllun (ar sail astudiaeth ranbarthol), a dadansoddiad manylach o ddefnyddiau dosbarth B er mwyn llywio polisi manwl (y mae Adolygiad Lleol o Dir ar gyfer Cyflogaeth yn sail iddo). Mae angen y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith o baratoi cynlluniau, ac felly nid yw'n effeithio ar y CDLI Mabwysiedig.

- **Dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd i baratoi asesiadau rhanbarthol/isranbarthol o ddynnameg y marchnadoedd eiddo masnachol a diwydiannol.**

Dylai gweledigaethau economaidd lleol gael eu pennu yng nghyd-destun yr asesiadau hyn. Os bydd awdurdodau cynllunio lleol yn pennu gweledigaethau sy'n gwyro oddi wrth y cyd-destun rhanbarthol, bydd angen iddynt gyfiawnhau'r rhesymau dros wneud hynny. Mae hwn, unwaith yn rhagor, yn fater i'w ystyried wrth baratoi cynlluniau, ac nid yw'n effeithio ar y CDLI Mabwysiedig.

- **Mae'r TAN yn cynnwys rhestr o wahanol randdeiliaid a all daflu goleuni ar yr economi leol, a dylai'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â'r rhanddeiliaid hynny.**

Mae hwn yn fater i'w ystyried wrth baratoi cynlluniau, ac nid yw'n effeithio ar y CDLI Mabwysiedig.

- **Mae'r TAN yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn asesu'r budd economaidd sy'n gysylltiedig â dyrannu safleoedd a phenderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio at ddibenion datblygu economaidd.**

O ran y cynllun datblygu, mae'r mater hwn yn ymwneud â dyrannu safleoedd yn rhan o'r gwaith o baratoi cynllun, ac felly nid yw'n effeithio yn uniongyrchol ar y CDLI Mabwysiedig.

- **Mae angen cynnal y profion canlynol os caiff achos o ddyrannu safle neu roi caniatâd cynllunio ei ystyried a allai niweidio amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol:**

- A oes safleoedd amgen ar gael ar gyfer y cynnig?
- Faint o swyddi uniongyrchol a fydd yn deillio o'r cynnig?
- A fyddai datblygiad o'r fath yn gwneud cyfraniad arbennig i amcanion polisi?

O ran y cynllun datblygu, mae'r mater hwn yn ymwneud â dyrannu safleoedd yn rhan o'r gwaith o baratoi cynllun, ac felly nid yw'n effeithio yn uniongyrchol ar y CDLI Mabwysiedig. O ran penderfyniadau'n ymwneud â rheoli datblygu, mae'r gofyniad hwn yn ystyriaeth ychwanegol sydd y tu hwnt i Fframwaith Polisiâu'r CDLI Mabwysiedig.

- **Ni ddylai safleoedd gael eu clustnodi os nad oes llawer o obaith y byddant yn cael eu datblygu yn y dyfodol, a dylai safleoedd sydd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer cyflogaeth ond nad oes gobaith rhesymol y byddant yn cael eu defnyddio neu'u hailddefnyddio gael eu hailddyrannu neu'u dad-ddyrannu**

Mae'r TAN yn egluro'r meini prawf y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio wrth ystyried cynigion i ryddhau safleoedd cyflogaeth B1-B8 presennol at ddefnydd arall.

3.6 At ei gilydd, mae'r darpariaethau a nodir yn TAN 23 yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith o baratoi cynlluniau ac maent yn darparu ystyriaethau ychwanegol sydd y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn y CDLI Mabwysiedig. Felly, nid oes angen gwneud unrhyw newid i'r CDLI Mabwysiedig.

Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Ionawr 2015

3.7 Mae'r fersiwn ddiwygiedig o TAN 1 yn mynd i'r afael yn bennaf ag agweddau gweithdrefnol ar y gwaith o baratoi adroddiad blynyddol ynghylch y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Nid yw'r gweithdrefnau hynny'n effeithio ar y CDLI Mabwysiedig, ond mae'r adroddiad yn egluro'r cyflenwad tir presennol ar gyfer tai yng nghyswllt yr awdurdod cynllunio lleol, sy'n ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio. Mae'r TAN yn cynnwys newidiadau i'r modd y mae'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn cael eu gweithredu, gan mai dim ond ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol sydd â Chynllun Datblygu Mabwysiedig y maent yn ofynnol erbyn hyn. Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili baratoi adroddiadau blynyddol ynghylch y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, sy'n dal i gael eu paratoi yn dilyn y broses o ddiwygio TAN 1. Y brif effaith y mae'r TAN wedi'i chael ar y Cynllun Mabwysiedig, ac yn enwedig y modd y caiff ei fonitro, yw bod y TAN erbyn hyn yn nodi mai'r unig ddull o gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai yw'r dull gweddilliol. Y dull gweddilliol oedd y dull a gâi ei ffafrio o'r blaen, ond roedd cyfrifo'r cyflenwad tir ar sail cyfraddau adeiladu'r gorffennol hefyd yn bosibl, yn enwedig os oedd cynlluniau datblygu'n nesáu at ddiwedd eu cyfnod

3.8 Mae'r dull gweddilliol yn defnyddio nifer y tai sy'n weddill i'w hadeiladu yn ystod cyfnod y cynllun fel sail ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad pum mlynedd o dir. Mae'r dull hwn yn arwain at sefyllfa baradocsaidd, sef cyflenwad llai o dir ar gyfer tai pan fo cyfraddau adeiladu

tai'r blynyddoedd blaenorol wedi bod yn isel (gan fod effaith nifer yr unedau sy'n weddill yn cynyddu wrth i gyfnod y cynllun fynd rhagddo). I'r gwrthwyneb, mae'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn defnyddio ffigur cyfartalog ar gyfer nifer yr unedau a adeiladwyd dros y pum mlynedd diwethaf (neu'r 10 mlynedd diwethaf weithiau) fel sail ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad, ac mae'r dull hwn yn cynyddu'r cyflenwad tir pan fo cyfraddau adeiladu'r gorffennol wedi gostwng islaw'r ffigur blynyddol a ragwelwyd.

3.9 Mae'r gofyniad i ddefnyddio'r dull gweddilliol yn unig yn diddymu'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol fel adnodd cymharu ar gyfer cyflenwad tir. Mae hefyd yn golygu, yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu tai wedi bod yn isel, megis y cyfnodau sydd wedi dilyn y dirywiad economaidd ac sydd wedi cyd-daro â chyfnod llawn y CDLI Mabwysiedig, bod y cyflenwad tir ar gyfer tai yn y fwrdeistref sirol hon (ac yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol eraill) wedi gostwng yn ddramatig.

3.10 Er na fu gan y fwrdeistref sirol, o ddefnyddio'r dull gweddilliol, gyflenwad pum mlynedd o dir ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2012 (y lefel erbyn hyn yw 1.5 mlynedd), mae defnyddio'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn dangos mai dim ond yn 2015 y gostyngodd y cyflenwad tir islaw pum mlynedd, ac mai dim ond ychydig yn is na phum mlynedd yw'r lefel yn 2016, sef 4.5 mlynedd.

Deddf Cynllunio (Cymru), Gorffennaf 2015

3.11 Cyhoeddwyd y Ddeddf yn dilyn adolygiad o'r drefn gynllunio yng Nghymru, ac mae'n ceisio adeiladu ar y system bresennol drwy greu darpariaethau newydd a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na chyflwyno system hollol newydd. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o newidiadau i'r system gynllunio, a chaiff y newidiadau pwysicaf a mwyaf perthnasol eu hystyried isod:

- **Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer paratoi a diwygio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.**

Cynllun defnydd tir cenedlaethol yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn egluro polisiau Llywodraeth Cymru ynghylch y modd y caiff tir yng Nghymru ei ddatblygu a'i ddefnyddio. Mae'r Fframwaith hwn yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. Bydd angen i bob CDLI sydd wrthi'n cael ei lunio gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, neu gyfiawnhau unrhyw achosion o wyro oddi wrth y Fframwaith.

- **Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi ardaloedd o Gymru yn ardaloedd cynllunio strategol lle caiff Cynllun Datblygu Strategol ei baratoi.**

Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn mynd i'r afael â materion trawsffiniol, a bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei ystyried yn ardal gynllunio strategol. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn gosod y cyd-destun rhanbarthol ar gyfer unrhyw CDLI sydd wrthi'n cael ei lunio, ac felly bydd angen i unrhyw adolygiad o gynllun ystyried y Cynllun Datblygu Strategol.

- **Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried adolygu eu Cynlluniau Mabwysiedig pan fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal wedi'i gyhoeddi.**

Bydd hynny'n effeithio yn uniongyrchol ar y CDLI Mabwysiedig. Bydd angen i'r Cyngor ystyried adolygu'r Cynllun Mabwysiedig pan gaiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei gyhoeddi a phan gaiff y Cynllun Datblygu Strategol ei gyhoeddi. Mae'r gofyniad hwn yn drech nag unrhyw ffordd arall o weithredu a argymhellir gan yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLI.

- **Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofyniad statudol i ymgysylltu cyn ymgeisio yng nghyswllt ceisiadau cynllunio.**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd arfaethedig ymgynghori â phobl benodol, sy'n debygol o gynnwys y cyhoedd, cyn ymgeisio.

- **Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth a fydd yn golygu bod modd i geisiadau gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru a bod modd i Weinidogion Cymru benderfynu yn eu cylch.**

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chyfyngu i ddau fath o gais, sef Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a cheisiadau a fyddai fel arall yn cael eu cyflwyno i awdurdod cynllunio lleol a ddynodwyd yn awdurdod sy'n tangyflawni (yn amodol ar feini prawf penodol). Mae'r mater hwn yn ymwneud â rheoli datblygu, felly nid yw'n esgor ar unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI Mabwysiedig.

- **Mae'r Ddeddf yn cyflwyno digwyddiadau sy'n atal cofrestru Meysydd Tref neu Bentref ar rai safleoedd.**

Bydd cofrestru safleoedd yn Feysydd Tref neu Bentref yn cael ei atal ar safleoedd lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi neu ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi at ddibenion datblygu mewn cynllun datblygu. Yn ogystal, bydd gan dirfeddianwyr y pŵer i wneud datganiad i ddod â diwedd i ddefnyddio tir 'drwy hawl'. Bydd y newid hwn yn atal safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu rhag mynd yn ddiwerth, a fydd yn cynorthwyo i weithredu'r cynllun.

3.12 Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno nifer o newidiadau i brosesau rheoli datblygu. Fodd bynnag, mae'r newidiadau hynny'n effeithio ar y swyddogaeth rheoli datblygu ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Mabwysiedig.

Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol: 2il Argraffiad, Awst 2015

3.13 Mae'r Llawlyfr ar CDLLau wedi'i ddiwygio er mwyn ystyried y newidiadau i'r broses o baratoi CDLLau, sydd wedi'u nodi yn Neddf Cynllunio (Cymru). Y Llawlyfr ar CDLLau yw'r canllaw i'r broses o baratoi CDLLau yng Nghymru, ac felly mae'n berthnasol yn benodol i gynlluniau sydd wrthi'n cael eu llunio yn hytrach na chynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu. Un newid allweddol i'r Llawlyfr, nad yw'n codi yn benodol o'r Ddeddf, yw gostyngiad o 10 i ddim ond 4 yn nifer y dangosyddion gorfodol y mae gofyn eu monitro'n rhan o'r broses fonitro flynyddol.

3.14 Mae hwn yn newid sylweddol i'r broses o fonitro cynlluniau datblygu, a bydd yn effeithio ar unrhyw gynllun datblygu newydd. Er y gallai'r broses barhaus o fonitro'r CDLI Mabwysiedig ostwng nifer y dangosyddion gorfodol a gaiff eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i'r pedwar yn unig a nodir yn yr 2il argraffiad, gallai hynny achosi problemau wrth ystyried Adroddiadau Monitro Blynyddol dros gyfnod y Cynllun Mabwysiedig. Hyd yn hyn, mae pob un o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi cynnwys data ar gyfer y dangosyddion gorfodol (sylwer mai dim ond wyth o 10 dangosydd y Llawlyfr ar CDLLau a gaiff eu cynnwys gan nad oes modd monitro

dau ohonynt) ac mae'r prosesau casglu ar gyfer eu data eisoes ar waith. Byddai newid nifer y dangosyddion ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun yn golygu bod rhai o'r dangosyddion yn cael eu colli i'r broses fonitro. Byddai colli'r dangosyddion hyn yn golygu na fyddai'r Adroddiadau Monitro Blynyddol cyn ac ar ôl y newid yn gyson â'i gilydd ac na fyddai modd eu cymharu, a byddai'r potensial i ystyried y canlyniadau ar draws cyfnod cyfan y cynllun yn cael ei golli.

3.15 O gofio bod y prosesau eisoes ar waith, ac am resymau'n ymwneud â chysondeb a chymharu, penderfynwyd y dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn ac adroddiadau dilynol gynnwys yr holl ddangosyddion statudol gwreiddiol.

Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8, Ionawr 2016

3.16 Yn dilyn yr adolygiad o'r system gynllunio, a oedd yn sail i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gwnaed nifer o newidiadau i'r brif ddogfen o ran polisi cynllunio yn ystod cyfnod y Cynllun Mabwysiedig. Yn benodol mae Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8 yn nodi pum prif newid:

- **Pennod 2: Cynlluniau Datblygu Lleol**

Mae'r bennod hon wedi'i newid er mwyn ymgorffori'r newidiadau a nodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8 yn atgyfnerthu'r newidiadau sy'n deillio o'r Ddeddf ac nid ydynt yn cyflwyno unrhyw ofynion pellach o ran y Cynllun Mabwysiedig.



● **Pennod 4: Cynllunio ar gyfer**

Cynaliadwyedd

Mae'r bennod hon wedi'i diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant), ac mae hefyd wedi'i diweddarau er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau ynghylch y Gymraeg yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n cryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y system gynllunio. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gynlluniau sydd wrthi'n cael eu llunio, ac felly nid ydynt yn esgor ar unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyfer y Cynllun Mabwysiedig.

● **Pennod 5: Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir**

Mae'r bennod hon wedi'i diweddarau er mwyn cynnwys cyfeiriad at ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru. Mae goblygiadau'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynlluniau sydd wrthi'n cael eu llunio, ac felly nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y CDLI Mabwysiedig.

● **Pennod 12: Seilwaith a Gwasanaethau (yr adran ar ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel)**

Mae'r bennod hon wedi'i diwygio er mwyn i offer microgynhyrchu annomestig ar raddfa fach gael eu cynnwys yn y canllawiau. Mae prif oblygiadau'r newidiadau hyn yn ymwneud â chynlluniau sydd wrthi'n cael eu llunio, felly nid ydynt yn effeithio o gwbl ar y Cynllun Mabwysiedig.

● **Pennod 14: Mwynau**

Mae'r bennod hon wedi'i diwygio er mwyn ymgorffori darpariaeth y ddogfen flaenorol, sef Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Nid oes unrhyw newid polisi o bwys wedi'i wneud yn ystod y broses o integreiddio'r canllawiau ynghylch mwynau ym Mholisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001)

wedi'i ganslo yn dilyn hynny. O gofio na chyflwynwyd unrhyw newid polisi, nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI Mabwysiedig.

3.17 At ei gilydd, nid yw'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8 yn effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Mabwysiedig.

Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, Mawrth 2016

3.18 Roedd Adran 62 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yn rhaid cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad yn rhan o gais cynllunio. Ar ôl adolygu'r system gynllunio yng Nghymru, cafodd y gofyniad hwn ei ddileu o ddeddfwriaeth sylfaenol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Diben y diwygio yw sicrhau y caiff y gofyniad i gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad yn rhan o geisiadau cynllunio ei gadw yng Nghymru, felly mae'r gofyniad wedi'i ymgorffori yn y TAN. Yn ogystal, mae canllawiau ynghylch paratoi Datganiad Dylunio a Mynediad wedi'u cynnwys yn y TAN.

3.19 Nid yw'r newidiadau i TAN 12 yn effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Mabwysiedig.

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

3.20 Mae rhanbarth de-ddwyrain Cymru ar drothwy cyfnod o newid sylweddol. Ar 17 Mehefin 2015 cytunodd y Cabinet i gefnogi'r broses o ddatblygu cynllun ar gyfer y Fargen Ddinesig, gyda'r deg awdurdod lleol yn cyfrannu at gost gwaith ymchwil a gwaith cynllunio ariannol. Ar 6 Hydref y llynedd penderfynodd y Cyngor gefnogi'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer Bargaen Ddinesig, ac ym mis Chwefror 2016 cytunodd yr aelodau y dylai'r awdurdod (drwy'r Arweinydd) lofnodi'n ffurfiol ymrwymiad i gymryd rhan ym menter y Fargen Ddinesig. O ganlyniad, ar 15 Mawrth 2016 cafodd cytundeb y Fargen Ddinesig ei lofnodi gan Arweinwyr deg awdurdod lleol y rhanbarth, Prif Weinidog Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'r Fargen Ddinesig yn egluro'r dull gweithredu

trawsnewidiol y bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei ddefnyddio i sicrhau maint a natur y buddsoddiad y mae ei angen i gefnogi cynlluniau'r ardal ar gyfer twf.

- 3.21** Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnig cyfle unigryw i'r deg ardal awdurdod lleol gydweithredu â'i gilydd i ddatblygu a chyflwyno dull strategol o ymdrin â thai, gwaith adfywio a thwf economaidd, a fydd yn creu Prifddinas-Ranbarth hygyrch y gellir byw ynddo sy'n integreiddio bywyd a gwaith ac sydd â chysylltiadau rhagorol. I'r perwyl hwnnw mae'r cytundeb a lofnodwyd gan yr arweinwyr yn rhwymo'r deg awdurdod lleol (mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru) i greu Cynllun Datblygu Strategol integredig sy'n ymgorffori defnydd tir ar gyfer tai a chyflogaeth â chynlluniau trafnidiaeth ehangach. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol newydd yn darparu'r glasbrint ar gyfer datblygu ar draws y dinas-ranbarth. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2015, yn egluro'r broses statudol ar gyfer sefydlu a pharatoi'r Cynllun Datblygu Strategol.
- 3.22** Er bod y Cynllun Datblygu Strategol ar wahân i broses y Fargen Ddinesig, ceir synergeddau clir ac mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn cynnal y cydberthnasau rhanbarthol ac yn eu cryfhau. Mae cynllunio defnydd tir ar lefel ranbarthol yn darparu dull o gyflawni rhai agweddau ar y Fargen Ddinesig, a bydd yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio rhanbarthol a fydd yn sail i statws cymharol pob ardal o safbwynt twf economaidd, twf o ran trafnidiaeth a thwf o ran tai yn y dyfodol. Yn fyr, dyma'r prif fodd y gall Bwrdeistref Sirol Caerffili ddatblygu'n lle allweddol â chysylltiadau da yn y rhanbarth.
- 3.23** Bydd angen cyfiawnhau union ffin cynllun rhanbarthol maes o law, ond mae Prifysgol Caerdydd wedi cwblhau rhywfaint o ymchwil ynghylch datblygu methodoleg ar gyfer llunio ffiniau cynllunio strategol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn awgrymu, ar sail tystiolaeth ynghylch datblygu economaidd, y byddai ffin resymegol yn cynnwys pob un o'r deg awdurdod cynllunio lleol sydd yn ne-

ddwyrain Cymru, o Ben-y-bont ar Ogwr yn y gorllewin i Sir Fynwy yn y dwyrain. Byddai hynny'n adlewyrchu'r Fargen Ddinesig. Byddai cynnig ynghylch lleoliad y ffin yn destun ymgynghoriad penodol, a fyddai'n cynnwys pob un o'r Cynghorau, ac yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gyda'r cynnig terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.

- 3.24** Yn y dyfodol, felly, bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ymdrin â materion cynllunio strategol megis y galw am dai, safleoedd strategol ar gyfer cyflogaeth, a seilwaith trafnidiaeth ategol (ee Metro), sy'n berthnasol i nifer o awdurdodau cynllunio lleol. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl i faterion o'r fath gael eu hystyried, a chael gwaith cynllunio wedi'i wneud ar eu cyfer, mewn modd integredig a chynhwysfawr yn y rhanbarth a bydd yn mynd i'r afael â phryderon nad yw'r rhanbarth yn cael ei gynllunio mewn modd cyfannol a chysylltiedig.
- 3.25** Pan gaiff y Cynllun Datblygu Strategol ei gyhoeddi, bydd yn creu gofyniad i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried adolygu eu cynlluniau mabwysiedig er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun strategol. Fodd bynnag, bydd angen gwneud cryn dipyn o waith i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac ni ragwelir y bydd llawer o waith paratoi wedi'i gyflawni yng nghyswllt Cynllun o'r fath yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r sefyllfa yn flynyddol er mwyn ystyried unrhyw gynnydd a wnaed o ran paratoi Cynllun Datblygu Strategol.
- 3.24** In the future therefore the SDP will deal with strategic planning issues, such as housing demand, strategic employment sites, supporting transport infrastructure (e.g. Metro), which cut across a number of local planning authorities. This will allow such matters to be considered and planned for in an integrated and comprehensive way within the region and will address concerns that the region is not being planned in a holistic and connected way.

3.25 When the SDP is published it will trigger a requirement for all local planning authorities to consider reviews of their adopted plans to ensure they are in accordance with the strategic plan. However, the preparation of a SDP will require a significant amount of work and it is not envisaged that a SDP will have been progressed significantly through its preparation process during the next monitoring period. However the position will need to be reviewed annually to take account of any progress on the preparation of a SDP.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.26 Daeth y Ddeddf Llesiant i rym ym mis Gorffennaf 2015. Fodd bynnag, ni ddaeth ei darpariaethau i rym tan 1 Ebrill 2016, sydd y tu allan i'r cyfnod monitro ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Felly, nid yw goblygiadau'r Ddeddf Llesiant yn berthnasol i'r gwaith o ystyried perfformiad y CDLI Mabwysiedig dros gyfnod monitro'r flwyddyn hon. Yn amlwg, bydd angen rhoi sylw i hyn yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

3.27 Ni ddaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i rym tan yn hwyr ar 22 Mawrth 2016 a dim ond i bum diwrnod olaf y cyfnod monitro yr oedd darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol. Er bod y Ddeddf, yn dechnegol, wedi dod i rym yn ystod y cyfnod monitro mae'r ffaith iddi ddod i rym ar ddiwedd y cyfnod yn golygu nad yw, mewn gwirionedd, wedi cael unrhyw effaith ar y modd y mae'r cynllun wedi'i weithredu yn ystod y cyfnod monitro. O gofio hynny, ystyrir ei bod yn fwy priodol i'r effeithiau ar weithredu'r CDLI a'i fonitro gael eu nodi yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017.

I gloi

3.28 Er bod nifer o newidiadau pwysig wedi'u gwneud i'r sefyllfa o ran cynllunio ers 2013, mae mwyafrif llethol y newidiadau'n effeithio ar y dull o baratoi cynlluniau sydd wrthi'n cael eu

llunio ac nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y CDLI Mabwysiedig neu'r modd y mae'n perfformio. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad nad yw'r newid mewn amgylchiadau'n gyffredinol yn esgor ar unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer y CDLI Mabwysiedig.

3.29 Un eithriad allweddol yw'r newidiadau i TAN 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai a'r goblygiadau ar gyfer monitro'r CDLI o gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai gan ddefnyddio'r dull gweddilliol. Mae tuedd y dull gweddilliol i sicrhau lefelau is o argaeledd tir ar gyfer tai mewn cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu tai'n isel yn golygu bod argaeledd tir ar gyfer tai'n debygol o waethygu yn y dyfodol agos wrth i natur ddirwasgedig y diwydiant datblygu barhau.

3.30 Mae'r Cyngor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried y sefyllfa o ran y gofyniad ynghylch cyflenwad pum mlynedd o dir a'r ffaith bod yn rhaid defnyddio'r dull gweddilliol, yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2016. I'r perwyl hwn, bydd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yn mynychu cyfarfod ag uwch-weision sifil yn y dyfodol agos i drafod y mater hwn.



4. Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd

4.1 Caiff canlyniadau proses fonitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol eu hegluro yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Dylid nodi mai'r cyfnod monitro ar gyfer yr Asesiad Monitro Blynyddol yw 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, a chaiff canfyddiadau'r asesiad eu cynnwys yn y golofn '2016'.

Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol – canlyniadau 2016

4.2 Bydd canfyddiadau'r gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn newid o flwyddyn i flwyddyn oherwydd newidiadau bach sy'n deillio o agweddau anwadal ar ddatblygu ac o ffactorau allanol. O ganlyniad, bydd trosolwg o'r tueddiadau ynghyd â'r darlun cyflawn yn darparu dadansoddiad mwy cynhwysfawr a chadarn o effeithiau'r CDLI nag unrhyw flwyddyn unigol, a fydd i bob pwrpas yn darparu cipolwg yn unig ar unrhyw adeg

4.3 Mae angen ystyried chwe blynedd o ganlyniadau Adroddiadau Monitro Blynyddol yn yr adran hon, sef canlyniadau adroddiad 'ymarfer' 2011, canlyniadau Adroddiadau Monitro Blynyddol 2012, 2013, 2014 a 2015, a'r canlyniadau cyfredol ar gyfer 2016. Er bod modd dadansoddi pob set o ganlyniadau drwy ei chymharu â phob set arall, y prif faterion y

mae angen mynd i'r afael â nhw yw newidiadau rhwng canlyniadau 2016 a chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol (sy'n cynrychioli'r newid o'r naill flwyddyn i'r llall) a newidiadau rhwng canlyniadau 2016 a chanlyniadau'r flwyddyn gyntaf (sy'n cynrychioli'r newid dros gyfnod y cynllun). O ganlyniad, mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn cymharu canlyniadau 2016 â chanlyniadau Adroddiad Monitro Blynyddol 2015, ac yn cymharu canlyniadau 2016 â'r adroddiad 'ymarfer' gwreiddiol, h.y. gwaelodlin 2011..

4.4 Yr ystyriaeth gyntaf yw'r nifer a gofnodwyd ar gyfer pob math o ganlyniad. Mae Tabl 1 isod yn nodi canlyniadau'r gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn ôl eu math a'u blwyddyn..

4.5 Yn 2016 ni chofnodwyd unrhyw effeithiau negatif dwbl, a dim ond pedair effaith negatif sengl a gofnodwyd. Mae'r pedair effaith negatif yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Y gwaith o ddarparu tai – yn bennaf oherwydd llai o weithgarwch adeiladu tai yn y fwrdeistref sirol yn sgîl effeithiau'r dirywiad economaidd.
- Cyflawniad addysgol – yn esgor ar ganlyniadau negatif am yr ail flwyddyn, er bod y camau gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud yn bennaf â ffactorau sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl y cynllun.
- Perygl llifogydd – yn esgor ar ganlyniadau negatif am yr ail flwyddyn yn olynol, ac am

| Cymharu effeithiau | | | | | | |
|--------------------|------|------|------|------|------|------|
| Result | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| XX | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| X | 4 | 8 | 5 | 2 | 4 | 4 |
| O | 2 | 5 | 9 | 7 | 4 | 5 |
| + | 6 | 6 | 5 | 9 | 6 | 9 |
| ++ | 2 | 3 | 3 | 4 | 5 | 4 |
| DNA | 7 | 2 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NM | 1 | 1 | 2 | 3 | 3 | 3 |

Tabl 1 – Cymharu'r canlyniadau o ran effeithiau dros gyfnod

y drydedd flwyddyn ers 2011. Mae hynny'n bennaf oherwydd bod y mater yn cael ei asesu ar sail lefel waelodlin a osodwyd ar y lefel isaf posibl, heb ddim lle i amrywio. Mae hynny'n esgor ar ganlyniadau sy'n amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall.

- Ynni adnewyddadwy – mae'r data ar gyfer y mater hwn yn amrywio'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall ac yn esgor ar ganlyniadau sy'n amrywio'n flynyddol. Er mai hon yw'r ail flwyddyn lle cafwyd canlyniadau negatif, roedd canlyniadau'r flwyddyn flaenorol yn bositif.

4.6 Cafwyd naw canlyniad positif sengl a oedd yn ymwneud â throredd, cyflogaeth, iechyd, hamdden, tirwedd, diwylliant, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a thagfeydd traffig. Ceir pedwar canlyniad positif dwbl sy'n ymwneud â llygredd, asedau hanesyddol, daeareg a gwastraff. Mae'r canlyniadau positif yn ymdrin ag ystod eang o faterion o bob un o'r tri philer cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) sy'n golygu newidiadau positif ar draws yr amgylchedd yn gyffredinol.

4.7 Ceir pum canlyniad niwtral ac maent yn ymwneud â chyfoeth; datblygu cyflogaeth; poblogaeth; defnyddio tir yn effeithlon; ac asedau materol. Ceir tri mater sydd heb eu monitro, oherwydd diffyg gwybodaeth.

4.8 Gan nad yw'r asesiad wedi esgor ar unrhyw ganlyniadau negatif dwbl a'i fod wedi esgor ar gyfanswm o 13 o ganlyniadau positif (gan gynnwys pedwar canlyniad positif dwbl), mae'r asesiad yn esgor ar ganlyniad positif iawn yn gyffredinol. Mae rhywfaint o hynny'n seiliedig ar faterion â data ategol sy'n amrywio'n sylweddol ac a allai esgor ar fwy o ganlyniadau negatif mewn blynyddoedd eraill, ond at ei gilydd mae'r asesiad yn dangos bod y cynllun wedi cael effaith gyffredinol bositif.

Cymharu â'r blynyddoedd blaenorol

4.9 Mae Tabl 2 isod yn egluro'r tueddiadau a'r modd y mae'r canlyniadau y ceisir eu cyflawni

wedi newid dros gyfnod. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig oherwydd ei bod yn dangos a yw'r canlyniadau y ceisir eu cyflawni yn gyson ynteu a ydynt yn newid yn sylweddol ac, os felly, i ba gyfeiriad. Y prif gyfnodau y mae angen eu hasesu yw'r newidiadau tymor byr ers y llynedd (2015 – 2016) a'r tueddiadau tymor hir a asesir ar sail gwaith monitro'r flwyddyn gyntaf (2011 – 2016).

Asesu newidiadau diweddar (2015 – 2016)

4.10 Mae'r tabl yn egluro'r newidiadau mewn grwpiau gan ddechrau â'r newidiadau negatif (sef newidiadau i ganlyniad mwy negatif), yna'r newidiadau niwtral ac yna'r newidiadau positif. Fel y gwelir yn glir o Dabl 2, mae'r canlyniadau ar gyfer 2016 yn dangos newid amlwg o'r blynyddoedd blaenorol ac yn dangos bod newidiadau'n mynd yn fwyfwy positif. Mae'r canlyniadau ar gyfer eleni'n dangos bod tuedd y gorffennol, sef sicrhau mwy o ganlyniadau positif, wedi dychwelyd ar ôl i'r flwyddyn flaenorol esgor ar ganlyniadau mwy negatif a oedd yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o ddangosyddion wedi aros yn gyson, ac felly nad oedd unrhyw welliant positif wedi'i sicrhau. Mae'n braf nodi ei bod yn ymddangos mai 'diffyg' un flwyddyn yn unig oedd hynny, yn hytrach na bod y duedd yn newid, oherwydd ceir lefelau llawer uwch o ganlyniadau positif yn yr asesiad ar gyfer eleni.

4.11 Mae'r tabl yn dangos mai dim ond dau o ganlyniadau negatif y flwyddyn flaenorol a barhaodd yn negatif, ond bod dau ganlyniad positif blaenorol wedi troi'n ganlyniadau negatif. Yn ogystal, esgorodd un canlyniad positif sengl ar ganlyniad niwtral eleni. O gofio mai dim ond hanner y canlyniadau negatif a geir eleni o gymharu â chanlyniadau'r llynedd, mae hynny'n sicr yn awgrymu canlyniad mwy positif yn dilyn yr asesiad. Dylid nodi bod canlyniadau 2016 yn cynnwys un canlyniad negatif yn fwy na'r lefel ar gyfer 2014, ac un canlyniad negatif yn llai na'r lefel ar gyfer 2013, felly mae'r canlyniadau ar gyfer Adroddiad 2016 yn dangos bod y sefyllfa eleni fel pe bai'n ailsefydlu'r duedd bositif.

4.12 Ceir cynnydd sylweddol yn nifer y canlyniadau positif, wrth i saith canlyniad newid i fod yn ganlyniadau positif ac wrth i wyth canlyniad barhau'n ganlyniadau positif. Mae pedwar canlyniad negatif wedi troi'n ganlyniadau mwy positif yn ystod 2015, ac mae dau ohonynt bellach yn positif. Yn y cyfamser, o astudio'r newidiadau niwtral, gwelir mai dim ond pum canlyniad niwtral a gafwyd a'u bod i gyd wedi'u cynnal ers 2015, ac na chafwyd

unrhyw newidiadau newydd. O'r pum newid a gynhaliwyd, roedd tri'n ymwneud â materion na chânt eu monitro bellach oherwydd diffyg gwybodaeth.

4.13 At ei gilydd, mae'r newidiadau rhwng canlyniadau 2015 a 2016 yn dangos newid positif amlwg ac maent yn golygu bod y canlyniadau wedi dychwelyd yn fras i fod yn unol â'r tueddiadau rhwng 2011 a 2014.

| Newidiadau o ran effeithiau dros gyfnod | | | | | | |
|---|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|
| Newid | 2011 - 2013 | 2012 - 2013 | 2013 - 2014 | 2014 - 2015 | 2015 - 2016 | 2011 - 2016 |
| Newidiadau o positif i niwtral | 2 | 1 | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Newidiadau o niwtral i negatif | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Newidiadau o positif i negatif | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 1 |
| Newidiadau o DDAG i negatif | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Newidiadau o positif dwbl i negatif dwbl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dim newid (negatif) | 1 | 3 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Newidiadau o DDAG i niwtral | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Newidiadau o negatif i DDAG | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Newidiadau o niwtral i DDAG | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Newidiadau o positif i DDAG | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Dim newid (niwtral) | 2 | 4 | 4 | 3 | 5 | 2 |
| Newidiadau o DDAG i positif | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| Newidiadau o negatif i niwtral | 4 | 4 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| Newidiadau o niwtral i positif | 0 | 0 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| Newidiadau o negatif i positif | 1 | 1 | 3 | 2 | 2 | 3 |
| Newidiadau o negatif dwbl i positif dwbl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dim newid (positif) | 4 | 7 | 6 | 5 | 8 | 6 |

Tabl 2 – Cymharu newidiadau o ran effeithiau dros gyfnod

Asesu newidiadau tymor hir (2011 – 2016)

- 4.14** Mae gwaith cymharu hirdymor yn ail-gadarnhau casgliadau'r gymhariaeth â chanlyniadau 2015 ac yn dangos symudiad positif arwyddocaol. Roedd canlyniadau negatif yn dal yn berthnasol i ddau fater ers canlyniadau 2011, sef:
- Cyflawniad addysgol – er bod difrifoldeb y canlyniadau wedi lleihau o fod yn negatif dwbl i fod yn negatif sengl, a bod y canlyniadau wedi amrywio o fod yn negatif i bositif drwy gydol cyfnod y CDLI. Mae'r mesurau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon at ei gilydd y tu hwnt i gylch gorchwyl y CDLI.
 - Perygl llifogydd – mae canlyniadau'r mater hwn yn amrywio drwy gydol cyfnod y cynllun, o fod yn negatif i fod yn bositif i fod yn negatif unwaith eto. Dyma'r ail flwyddyn i ganlyniad negatif gael ei nodi. Caiff y dangosyddion ar gyfer y mater hwn eu pennu ar sail y targedau isaf posibl, ac o ganlyniad nid oes unrhyw hyblygrwydd i ystyried eithriadau a allai godi fesul achos.
- 4.15** Mae dau fater wedi newid o fod â chanlyniadau positif i fod â chanlyniadau negatif, ac mae un o'r materion na chawsant eu monitro yn 2011 hefyd wedi esgor ar ganlyniadau negatif.
- 4.16** Ar y llaw arall, mae chwe mater wedi cynnal eu canlyniadau positif:
- Trosedd – mae pedwar o'r chwe asesiad wedi esgor ar ganlyniadau positif.
 - Llygredd – mae'n fwy arwyddocaol eleni ac wedi esgor ar ganlyniadau positif dwbl. Mae'r mater hwn wedi amrywio rhwng canlyniadau positif a chanlyniadau negatif yn ystod cyfnod y CDLI.
 - Asedau hanesyddol – mae pump o'r chwe blwyddyn wedi esgor ar ganlyniadau positif.
 - Ansawdd dŵr – sicrhawyd canlyniadau positif dwbl ddwywaith, ond mae'n llai arwyddocaol eleni ar ôl gostwng i un canlyniad positif.

- Daeareg – mae'r mater hwn wedi esgor ar ganlyniadau positif dwbl drwy gydol cyfnod y cynllun.
- Gwastraff – mae pump o'r chwe blwyddyn wedi esgor ar ganlyniadau positif, ac ni chafodd y flwyddyn arall ei monitro oherwydd y graddau yr oedd gwybodaeth ar gael.

- 4.17** Yn ogystal â'r uchod, ceir saith newid positif yn y canlyniadau – mae tri ohonynt wedi esgor ar ganlyniadau positif sy'n deillio o'r ffaith na chawsant eu monitro yn y flwyddyn gyntaf, mae tri ohonynt yn newidiadau o ganlyniadau negatif i bositif, ac mae un newid wedi esgor ar ganlyniad positif yn dilyn canlyniad niwtral yn wreiddiol.
- 4.18 Mae'r newidiadau niwtral yn cynnwys dau fater sydd wedi cynnal canlyniadau niwtral, mae tri mater wedi esgor ar ganlyniadau niwtral sy'n deillio o'r ffaith na chawsant eu monitro, ac ni chafodd dau ganlyniad negatif eu monitro oherwydd diffyg gwybodaeth.

I gloi

- 4.19** Mae'r gwaith monitro eleni sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn esgor ar ganlyniad cyffredinol sy'n llawer mwy positif na'r flwyddyn flaenorol, a cheir lefelau positif sy'n agos i'r rhai a sicrhawyd yn 2013 a 2014. Er y gallai hynny awgrymu bod canlyniadau 2015 yn eithriad, nid oes modd dod i gasgliad sicr bod hynny'n wir. Bydd canlyniadau monitro 2017 yn allweddol o safbwynt diffinio a fydd y gwelliannau positif a sicrhawyd yn ystod y pedair blynedd cyntaf o waith monitro'n parhau.
- 4.20** At ei gilydd, mae canlyniadau 2016 yn awgrymu rhagolwg llawer mwy positif na chanlyniadau 2015, sy'n golygu bod yr amgylchedd at ei gilydd yn esgor ar fwy o effeithiau positif o ganlyniad i'r ffaith bod y cynllun yn cael ei weithredu.

5. Monitro polisiau'r CDLI

- 5.1** Arweiniodd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod 2012-13, at adolygiad o'r cynllun. O ganlyniad, dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013, cyhoeddwyd y Strategaeth a Ffefrir a dogfennau Fersiwn Adneuo'r CDLI Newydd ac ymgynghorwyd yn eu cylch. Yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Gorffennaf 2016, penderfynodd y Cyngor dynnu'r CDLI Newydd yn ôl (yn amodol ar gael cymeradwyaeth Weinidogol) a gofyn am gymorth i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gynnar. Felly, nes y bydd cynllun newydd wedi'i baratoi, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r CDLI Mabwysiedig i benderfynu ynghylch y defnydd a wneir o dir ac adeiladau yn y fwrdeistref sirol yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig deall pa bolisiau sy'n effeithiol a pha rai sy'n aneffeithiol.
- 5.2** Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer monitro polisiau. Mae'n rhoi crynodeb o'r polisiau sydd wedi cyrraedd y trothwy ac asesiad byr o'r mater. Caiff argymhelliad ynghylch gweithredu ar gyfer

pob polisi sydd wedi cyrraedd y trothwy ei egluro yn Atodiad 3. Bydd Pennod 8 yn ystyried goblygiadau'r canlyniadau hynny a bydd Pennod 9 yn argymhell pa gamau gweithredu y dylai'r Cyngor eu cymryd, os oes angen.

- 5.3** Caiff y wybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â phob un o'r dangosyddion a'r Ffactorau ei hegluro yn Nhablau Cefndir yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Nid yw'r tablau hynny'n rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, ac o ganlyniad ni chânt eu cynnwys ynddo. Caiff y polisiau strategol eu hystyried ar sail y fframwaith monitro er mwyn gweld a oes unrhyw bolisiau'n methu â chael eu gweithredu'n unol â'r strategaeth ddatblygu. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob polisi yn Nhabl 3 isod:
- 5.4** Mae mwyafrif y Polisiau Strategol yn cael eu gweithredu'n unol â'r strategaeth ddatblygu ar gyfer y cynllun. Mae problemau wedi codi mewn perthynas â phump o'r 22 o bolisiau ond nid oes angen cymryd camau gweithredu ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, mae problemau wedi codi mewn perthynas â dau bolisi – SP14 Holl ofynion o ran tai ac SP15 Targed ar gyfer tai fforddiadwy – y mae angen gweithredu er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae'r problemau sy'n deillio o'r polisiau hynny'n ymwneud ag argaeledd tir ar gyfer tai a darparu datblygiadau tai. Caiff y materion hyn eu hystyried yn fanylach ym Mhennod 8. At ei gilydd, mae'r fframwaith polisiau yn perfformio'n dda ac mae'n cyflawni nodau ac amcanion y cynllun yn gyffredinol.



| Cyflawni Polisiâu Strategol | | |
|--|---|---------|
| Polisiâu strategol | | Cynnydd |
| SP1 | Datblygu Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd | |
| SP2 | Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Gogleddol | |
| SP3 | Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Deheuol | |
| SP4 | Strategaeth aneddiadau | |
| SP5 | Terfynau aneddiadau | |
| SP6 | Creu lleoedd | |
| SP7 | Rhwymedigaethau cynllunio | |
| SP8 | Diogelu mwynau | |
| SP9 | Rheoli gwastraff | |
| SP10 | Gwarchod y dreftadaeth naturiol | |
| SP11 | Cyfleusterau hamdden cefn gwlad | |
| SP12 | Datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd | |
| SP13 | Canolfan hamdden yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd | |
| SP14 | Holl ofynion o ran tai | |
| SP15 | Targed ar gyfer tai fforddiadwy | |
| SP16 | Rheoli twf cyflogaeth | |
| SP17 | Hybu datblygu masnachol | |
| SP18 | Diogelu'r Rhwydwaith Hamdden Strategol | |
| SP19 | Gwelliannau i'r seilwaith trafniadaeth | |
| SP20 | Hierarchaeth ffyrdd | |
| SP21 | Safonau parcio | |
| SP22 | Cyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg | |
| Policy Monitoring Traffic Light System | | |
| Allwedd | Meaning | |
| | Mae'r polisi yn cael ei fodloni neu rhagorir arno. Does dim angen ymyrryd. | |
| | Nid yw'r polisi yn cyflawni'n ôl y disgwyl, ond mae'n cyflawni yn ddigonol ac nid oes angen cymryd camau i ymyrryd. | |
| | Nid yw'r polisi yn cyflawni'n ôl y disgwyl a dylid ystyried cymryd camau i ymyrryd. | |

Tabl 3 – Perfformiad Polisiâu Strategol

6. Dangosyddion gorfodol

6.1 Mae'r Rheoliadau CDLI yn mynnu bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu tai yn y fwrdeistref sirol ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn mynnu bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y cyflenwad tir ar gyfer tai, a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sydd ar waith ar hyn o bryd; a
- Nifer yr anheddau net – anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol – a adeiladwyd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol (os oes rhai).

6.2 Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn mynnu bod y wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer y cyfnod y mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ymwneud ag ef, a'r cyfnod ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu neu'i gymeradwyo yn y lle cyntaf. Caiff y wybodaeth am argaeledd tir ar gyfer tai ei monitro ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a diwedd mis Mawrth bob blwyddyn, drwy'r Gyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Caiff y wybodaeth honno ei nodi yn Atodiad 1 ac mae hefyd wedi'i chynnwys yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol sydd yn nogfen y Tablau Cefndir ynghylch monitro'r CDLI.

6.3 Mae TAN 1 yn cynnwys gofyniad i fonitro'r cyflenwad pum mlynedd o dir y mae angen i bob awdurdod cynllunio lleol ei gynnal. Caiff y wybodaeth honno hefyd ei nodi yn Atodiad 1 ac mae wedi'i chynnwys yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol sydd yn nogfen y Tablau Cefndir ynghylch monitro'r CDLI.

6.4 Mae'r Llawlyfr ar CDLlau: 2il Argraffiad wedi diwygio'r sefyllfa o ran nifer y dangosyddion statudol y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Fodd bynnag, penderfynwyd am resymau'n ymwneud â chysondeb a chymharu y dylai Adroddiad 2016 ac Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol barhau i gynnwys pob un o'r 12 dangosydd gorfodol gwreiddiol. Dyma'r dangosyddion:

- Cyflenwad/Gwaith datblygu tir ar gyfer cyflogaeth – ffigur net (hectarau/metrau sgwâr);
 - Lefel y gwaith datblygu, gan gynnwys tai, a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y cynllun datblygu, fel % o ddyraniadau'r cynllun datblygu ac fel % o gyfanswm y gwaith datblygu a ganiateir (hectarau ac unedau);
 - Dwysedd, ar gyfartaledd, y gwaith datblygu tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig y cynllun datblygu;
 - Lefel y gwaith datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (gwaith ailddatblygu ac ailaddasu tir llwyd) a fynegir fel % o'r holl waith datblygu a ganiateir;
 - Lefel y gwaith datblygu mawr ar gyfer manwerthu, swyddfeydd a gweithgarwch hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir yng nghanol trefi, a fynegir fel canran o'r holl waith datblygu mawr a ganiateir (TAN 4);
 - Lefel y gwaith datblygu a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad yw'n bodloni holl broffion TAN 15;
 - Lefel y tir glas a'r mannau agored a gollir i waith datblygu (hectarau) nas dyrannwyd yn y cynllun datblygu;
 - Lefel y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir, a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (TAN 21) [heb ei fonitro];
 - Graddau'r agregau crai o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN);
 - Capasiti datblygiadau Ynni Adnewyddadwy (MW) a leolir mewn Ardaloedd Chwilio Strategol yn ôl math (TAN 8) [heb ei fonitro].
- 6.5** Mae canlyniadau'r dangosyddion hyn wedi'u nodi yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol yn nogfen y Tablau Cefndir. Nid oes yn rhaid cael sylwadau ynghylch y dangosyddion hyn.

7. Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol

7.1 System o daliadau y gall awdurdodau lleol ddewis eu codi ar sail datblygiadau newydd yn eu hardaloedd yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Caiff gwahanol gyfraddau eu nodi ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad, yn dibynnu ar hyfywedd pob math o ddatblygiad. Yna, caiff y refeniw a gynhyrchir o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ei ddefnyddio i ariannu seilwaith a fydd yn ategu gwaith datblygu a gyllunnir yn y dyfodol yn y fwrdeistref sirol. Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 1 Gorffennaf 2014. Mae'n dâl gorfodol sy'n cael ei godi ar sail pob datblygiad newydd sy'n gymwys.

7.2 Mae Rheoliad 62 Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn mynnu bod awdurdod sy'n casglu'r ardoll yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer pob blwyddyn lle casglwyd derbyniadau'r Ardoll. Mae'n ofynnol i'r adroddiad amlinellu'r canlynol:

- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddaeth i law
- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a wariwyd, gan gynnwys:
 - Y swm a wariwyd ar bob eitem o seilwaith
 - Y swm a drosglwyddwyd i unrhyw Gyngor Lleol (Cyngor Tref neu Gymuned)
 - Y swm sy'n gymwys i'w drosglwyddo i ardaloedd nad yw Cyngor Lleol yn ymdrin â nhw
 - Y swm a drosglwyddwyd i drydydd partïon er mwyn darparu seilwaith
 - Swm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gafodd eu hadennill gan unrhyw Gyngor Lleol
- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gadwyd ar ddiwedd y flwyddyn yr adroddir yn ei chylch
- Manylion y taliadau seilwaith a dderbyniwyd gan y Cyngor

7.3 O gofio bod y cyfnod adrodd ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yr un fath â chyfnod adrodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLI (1 Ebrill i 31 Mawrth) mae'n gwneud synnwyr i'r Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol gael ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn. Caiff hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Hydref, yn unol â'r gofynion ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

7.4 Y disgwyliad ar hyd yr amser oedd na fyddai derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ymddangos yn syth ar ôl i'r Ardoll gael ei chyflwyno yn 2014, ac felly y bu. Blwyddyn ariannol 2015/2016 oedd y flwyddyn ariannol gyntaf i'r Cyngor gael taliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

7.5 Mae Tabl 4 yn cynnwys crynodeb o dderbyniadau a gwariant sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn ystod y cyfnod monitro, daeth cyfanswm o £39,046.14 i law'r Cyngor ar ffurf derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Cafodd cyfanswm o £4,826.78 ei dalu i dri Chyngor Lleol yn unol â Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn ogystal, mae £1,030.13 yn cael ei gadw i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny o'r fwrdeistref sirol nad yw Cyngorau Lleol yn ymdrin â nhw.

7.6 Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ystyried a phenderfynu sut i wario derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar eitemau seilwaith yn flynyddol. Yn benodol, bydd y gwariant yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn rhan o ystyriaethau cyllidebol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Felly, nid oes unrhyw wariant wedi digwydd yng nghyswllt derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol hyd yma.

7.7 Mae'r Cyngor wedi cytuno â'r holl Gynghorau Lleol y bydd taliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i gymdogaethau'n cael eu gwneud i'r Cyngor Cymuned perthnasol erbyn 30 Mehefin fan bellaf bob blwyddyn. Cafodd y taliadau perthnasol i'r tri Chyngor Cymuned eu cwblhau yn unol â'r weithdrefn hon.

7.8 Yn unol â darpariaethau Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, mae'r Cyngor wedi cymryd £1,983.65 o dderbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar ffurf ffioedd gweinyddol er mwyn cynorthwyo i dalu'r gost o baratoi a gweithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'r ffioedd gweinyddol yn dod i 5% o gyfanswm derbyniadau'r Ardoll ar gyfer y flwyddyn.

7.9 Gellir cadarnhau nad oes unrhyw daliadau seilwaith wedi dod i law yn lle'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ac nad oes unrhyw dderbyniadau'r Ardoll wedi'u trosglwyddo i drydydd partïon er mwyn darparu seilwaith. O gofio'r uchod, swm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n weddill ac sydd ar gael i'w wario ar eitemau seilwaith yw £31,832.38.

| Ardal Cyngor Lleol | Derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol 2016 | Taliadau ychwanegol a llog 2016 | Ffioedd gweinyddol 2016 | Admin Fees 2016 |
|---|---|---------------------------------|-------------------------|------------------|
| Cwm Aber | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Argoed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Bargod | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | £5,720.00 | £858.00 | £0.00 | £286.00 |
| Coed Duon | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Caerffili | £3,040.00 | £456.00 | £608.00 | £182.40 |
| Cwm Darran | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Draethen | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gelligaer | £23,418.58 | £3,512.78 | £0.00 | £1,170.92 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Maes-y-cwmwr | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Nelson | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Tredegar Newydd | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Rhymni | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Dwyrain Rhisga | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gorllewin Rhisga | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Y Fan | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Y tu hwnt i ymdriniaeth Cyngorau Cymuned | £6,867.56 | £1,030.13 | £18.80 | £344.32 |
| Cyfanswm blynyddol | £39,046.14 | £5,856.91 | £626.80 | £1,983.65 |
| Cyfansymiau cronol | £39,046.14 | £5,856.91 | £626.80 | £1,983.65 |
| Cyfanswm incwm | £39,672.94 | | | |
| Cyfanswm gwariant | £7840.56 | | | |
| Cronfa bresennol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol | £31,832.38 | | | |

Tabl 4 – Crynodeb o incwm a gwariant sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

8. Casgliadau'r Asesiad

8.1 Mae paragraff 2.5.15 Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8 yn nodi y dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol roi sylw i'r materion canlynol:

- Y graddau y mae'r amcanion a nodwyd yn y CDLI yn cael eu cyflawni,
- Nodi unrhyw bolisi nad yw'n cael ei weithredu, a rhoi'r rhesymau dros hynny,
- Y camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu,
- Ystyried a ddylid adolygu'r cynllun neu gyflwyno cynllun newydd yn ei le.

8.2 Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â'r ddau fater cyntaf, gan ystyried canlyniadau'r ymarfer monitro a nodi'r polisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu a'r rhesymau dros hynny. Caiff y ddau fater arall eu trafod ym Mhennod 9 isod, a fydd hefyd yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad.

A yw amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni?

8.3 Mae'n bwysig cofio bod yr amcanion a nodwyd yn y CDLI Mabwysiedig yn dangos yr hyn a ddylai gael ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd yr amcanion wedi'u cyflawni erbyn hanner ffordd drwy gyfnod y cynllun. Felly, bydd ystyriaeth i'r mater hwn yn canolbwyntio ar b'un a yw'r polisiau yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion.

8.4 Mae'r CDLI Mabwysiedig yn cynnwys 24 o amcanion sy'n cyfrannu at gyflawni'r naw nod a nodwyd yn y cynllun. Mae'r rhestr lawn o amcanion, a'u perfformiad cymharol, i'w gweld yn Atodiad 4 y ddogfen hon.

8.5 O'r 24 o amcanion a nodwyd yn y cynllun, mae 15 yn cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl. Mae wyth o'r amcanion wedi gwneud cynnydd, ond nid ydynt yn cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl yn y strategaeth ddatblygu. Mae'r hinsawdd

economaidd wael wedi arwain at ddiwydiant datblygu dirwasgedig, ac o ganlyniad nid yw datblygiadau at ddibenion preswyl, masnachol a chyflogaeth wedi gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Mae hynny wedi esgor ar effeithiau cronol ar y modd y cyflawnir y cynllun, ac o ganlyniad nid yw'r wyth amcan dan sylw'n cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl.

8.6 Nodwyd nad yw amcan 9, sy'n ymdrin â darparu tai, wedi'i gyflawni. Er bod bron 50% o'r nifer ragamcanol o unedau wedi'u caniatáu hyd yn hyn, mae'r cynnydd a wneir ychydig ar ei hôl hi oherwydd bod dwy ran o dair o gyfnod y cynllun wedi pasio erbyn hyn. Fel rheol, byddai'r mater hwn wedi cael ei ystyried yn amcan sy'n perfformio ar lefel ambr (mae'n gwneud cynnydd ond nid yw'n cael ei gyflawni'n ôl y disgwyl). Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth fyth oherwydd nad oes gan y Cyngor y cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, fel sy'n ofynnol. Mae hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch cynigion sy'n mynd yn groes i'r cynllun datblygu, a gallai olygu bod datblygiad o'r fath yn cael ei ganiatáu yn dilyn apêl. Mae'r ffactorau hyn, o'u cyfuno, yn golygu bod yr amcan hwn ymhell iawn o fod yn cael ei gyflawni'n ôl y disgwyl.

8.7 Byddai'n afrealistig disgwyl i gynllun datblygu gyflawni ei holl amcanion yn gyson ac yn barhaus drwy unrhyw gyfnod, oherwydd bydd ffactorau allanol ac amrywiadau o ran pwysau datblygu'n arwain at eithriadau. O gofio bod yr hinsawdd economaidd wedi dylanwadu ar waith datblygu drwy gydol cyfnod y cynllun (ers iddo gael ei fabwysiadu), nid yw'n syndod nad yw nifer o'r dangosyddion wedi'u cyflawni yn ôl y disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o gyflawni'r amcanion ddigon ar ei hôl hi i olygu na allai sefyllfa economaidd well yn ystod y cyfnod sy'n weddill ei gwneud yn bosibl i rai o'r amcanion, os nad yr amcanion i gyd, gael eu cyflawni yn y pen draw. O ganlyniad, rhaid mai'r trosolwg yw bod y cynnydd a wneir o ran y CDLI yn cyflawni ei amcanion. Yr unig eithriad

yw amcan 9, a bydd angen ystyried y camau gweithredu a all wella perfformiad y CDLI o ran yr amcan hwnnw. Caiff y camau gweithredu dan sylw eu trafod ym Mhennod 9.

A oes unrhyw bolisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu?

8.8 Mae Tabl 3 ym Mhennod 5 uchod yn amlinellu perfformiad y Polisiau Strategol o ran cyflawni amcanion y CDLI. Cofnodwyd bod 15 o'r 22 o Bolisiau Strategol yn rhai sy'n cyflawni eu hamcanion priodol. Mae'r polisiau hynny'n cyfrannu mewn modd positif at gyflawni amcanion y CDLI, ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach yng nghyswllt y polisiau hynny.

8.9 Mae pump o Bolisiau Strategol eraill wedi'u nodi yn rhai nad ydynt yn cyflawni amcanion y CDLI yn ôl y disgwyl. Dyma'r pum polisi:

● SP2 – Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Gogleddol

Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar y prif faterion y dylid mynd i'r afael â nhw yn y maes strategaeth, sef datblygu tir glas/tir llwyd, lleihau cymudo, defnyddio tir yn effeithlon, gwarchod y dreftadaeth naturiol a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth yn Oakdale/Pen-y-fan. Y prif fater yw datblygu cyflogaeth yn nyriadau mwyaf y fwrdeistref sirol ar gyfer cyflogaeth, ac mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni wedi effeithio ar hynny. Fodd bynnag, ni ellir mynd i'r afael â'r hinsawdd economaidd drwy ymyriad gan un o bolisiau'r CDLI, felly mae ffactorau allanol yn effeithio ar y polisi strategol.

Caiff y trothwy ei gyrraedd yng nghyswllt un yn unig o ddangosyddion y polisi, sef allgymudo. Er y gall polisiau'r CDLI effeithio ar hynny, dylid nodi bod y dangosydd hwn wedi amrywio o fod ychydig yn is na'r trothwy i fod ychydig yn uwch na'r trothwy am gyfnod. Mae hynny'n awgrymu mai'r duedd gyffredinol ar gyfer y dangosydd yw ei fod yn eithaf sefydlog (a'i fod yn amrywio dim ond oherwydd gwahaniaethau yn y sampl y mae'r arolwg yn ei defnyddio). Gall datblygu economaidd, sy'n

dioddef dirwasgiad oherwydd yr hinsawdd economaidd, effeithio'n uniongyrchol ar allgymudo. O ganlyniad, er nad yw'r lleihad a ddisgwylid mewn allgymudo wedi digwydd hyd yma, nid yw hynny o ganlyniad i fethiant y polisi; yn hytrach, mae o ganlyniad i rymoedd allanol sy'n parhau i ddirwasgu gwaith datblygu yn y fwrdeistref sirol.

● SP4 – Strategaeth aneddiadau

Mae'r polisi hwn yn egluro'r hierarchaeth aneddiadau sydd wedi'i seilio ar ddadansoddiad swyddogaethol o aneddiadau ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r fframwaith monitro'n canolbwyntio ar y prif drefi oherwydd eu bod yn cynnwys yr ystod ehangaf o ddefnyddiau ac mai nhw yw'r prif ganolfannau manwerthu. Mae pob un o'r pedwar dangosydd ar gyfer y polisi hwn wedi cyrraedd y trothwy, ond am resymau gwahanol. Mae'r dangosydd cyntaf, sef nifer yr ymwelwyr, wedi cyrraedd y trothwy oherwydd problemau'n ymwneud â pheiriannau cyfrif nifer yr ymwelwyr, sydd wedi atal y gwaith cyfrif dros gyfnod hir. Er bod y dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy, mae wedi gwneud hynny oherwydd cyfrifiadau blynyddol anghyflawn.

Mae'r ail ddangosydd, sef cyfraddau unedau gwag, wedi cyrraedd y trothwy yn achos Bargod yn unig lle mae llawer o waith datblygu at ddibenion adfywio wedi'i wneud yn ddiweddar, gan gynnwys gwaith dymchwel ac ailadeiladu. Byddai hynny'n naturiol yn arwain at gynnydd dros dro yn nifer y lleoedd gwag wrth i unedau gau cyn iddynt gael eu dymchwel ac wrth iddi gymryd amser i'w gosod ar ôl iddynt gael eu datblygu. Mae'r gyfradd unedau gwag wedi gostwng ers y llynedd, ac eleni mae ychydig bach yn uwch na'r trothwy. Mae'n amlwg y bydd y gyfradd unedau gwag yn parhau i ostwng islaw'r trothwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, ac yn ôl tuag at lefelau sy'n debycach i lefelau'r prif drefi eraill.

Mae'r trydydd dangosydd, sef bodlonrwydd preswylwyr â chanol eu tref, wedi cyrraedd y trothwy yn achos Caerffili yn unig. Ers cryn amser, mae Caerffili wedi dioddef oherwydd diffyg gwaith adfywio y mae gwir angen ei gyflawni. Er bod polisiâu'r CDLI yn hybu canol y dref, mae'r diffyg buddsoddi mewn ailddatblygu'n golygu nad yw preswylwyr yn gweld gwelliant yng nghanol y dref a bod hynny'n troi'n anfodlonrwydd. Yr hyn sy'n gyfrifol gan mwyaf am y diffyg ailddatblygu yng nghanol y dref yw'r hinsawdd economaidd bresennol lle ceir amharoddrwydd i gymryd risg, sydd y tu hwnt i glych gorchwyl y CDLI Mabwysiedig.

Mae'r pedwerydd dangosydd, sef canran yr arian a gaiff ei wario yn y canolfannau manwerthu, wedi cyrraedd y trothwy o safbwynt gwariant ar nwyddau nad ydynt yn swmpus. Dylid nodi bod y data ar gyfer y dangosydd hwn yn seiliedig ar arolwg manwerthu a gynhelir o dro i dro yn hytrach na bob blwyddyn. Cyrhaeddodd y polisi'r trothwy am y tro cyntaf yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015, a oedd yn cynnwys data'r arolwg manwerthu cyntaf a gynhaliwyd ers mabwysiadu'r CDLI. Mae data'r arolwg hwn yn dangos gostyngiad sylweddol o'r lefel flaenorol, ac mae'n golygu bod y dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy. Dylid nodi bod y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn yn newid yn sylweddol o'r naill arolwg i'r llall ac y gallai rhywfaint o'r gostyngiad fod wedi digwydd o

ganlyniad i nodweddion y samplau cymharol. Yn ogystal, mae'r diffyg datblygu diweddar ym maes gwasanaethau masnachol/manwerthu wedi creu canolfannau manwerthu sy'n crebachu, yn enwedig o safbwynt nwyddau nad ydynt yn swmpus, sy'n naturiol ar y stryd fawr ac sy'n dibynnu ar berfformiad canol trefi, sydd hefyd wedi gwanhau yn ddiweddar. Fodd bynnag, os bydd y sefyllfa economaidd yn gwella ac os ceir mwy o fuddsoddi mewn datblygu ym maes gwasanaethau masnachol/manwerthu, nid oes rheswm i amau na fydd gwariant ar nwyddau nad ydynt yn swmpus yn cynyddu i lefelau mwy arferol.

● SP8 Diogelu mwynau

Nid yw data monitro'r polisi hwn ar gael ar gyfer y cyfnod monitro dan sylw am nad yw canlyniadau'r adolygiad blynyddol wedi'u cyhoeddi eto. Mae'r polisi hwn wedi'i gynnwys oherwydd ei fod wedi cyrraedd y trothwy bob blwyddyn y mae gwaith monitro wedi'i gyflawni. Cafodd y dangosydd, a gwerthoedd ei drothwyau, eu pennu ar sail y patrymau cynhyrchu a defnyddio cyffredinol a oedd yn bodoli cyn y dirywiad economaidd, felly mae gwerthoedd y trothwyau'n adlewyrchu cyfnod mwy llewyrchus o safbwynt masnachol. Mae'r



dirywiad economaidd wedi lleihau'n sylweddol y galw am fwynau, a chan fod y cyflenwad mwynau'n adlewyrchu yn agos y galw sydd amdano, mae'r gwaith o gynhyrchu mwynau hefyd wedi lleihau'n sylweddol i lefel sy'n is na'r trothwy ar gyfer y polisi. Mae gan y Cyngor dros 20 mlynedd o gyflenwadau wrth gefn o fwynau o hyd, felly nid y broses o weithredu'r cynllun sy'n peri i'r polisi gyrraedd y trothwy.

● SP10 – Gwarchod y dreftadaeth naturiol

Caiff y polisi hwn ei fonitro drwy bum ffactor sy'n ymdrin â gwahanol ddynodiadau ar gyfer ansawdd tirwedd a gwarchod treftadaeth naturiol. Mae dau o'r ffactorau hyn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r dreftadaeth naturiol, ac mae un ohonynt yn gysylltiedig â cholli tir Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ni chofnodwyd unrhyw golled) a cholli tir Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur/Gwarchodfa Natur Leol (cofnodwyd 12 o geisiadau). Mae gan bob un o'r ffactorau dan y polisi hwn drothwy uchelgeisiol, sef colli dim ased o gwbl. Mae'r trothwyau hyn yn absoliwt ac nid ydynt yn ystyried natur y datblygiad arfaethedig (byddai ystyriaeth o'r fath bob blwyddyn yn golygu y byddai'r broses fonitro'n rhy feichus). O ganlyniad, bydd unrhyw ddatblygiad yn effeithio ar yr ased ac yn golygu y bydd y polisi'n cyrraedd y trothwy. Eleni, digwyddodd y rhan fwyaf o'r colli tir ar Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur oherwydd bod caniatâd wedi'i roi ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Mabwysiedig. Digwyddodd colledion eraill oherwydd datblygiadau mewn cwrtilau presennol a oedd wedi'u datblygu, neu oherwydd datblygiadau at ddefnydd megis codi tyrbinau gwynt a darparu pont i feicwyr.

Mewn achosion lle mae natur y datblygiadau wedi'i hystyried gellir gweld nad yw'r polisi yn methu, oherwydd byddai'r datblygiadau a ganiateir yn cael eu hystyried yn dderbyniol yn eu priod leoliadau.

● SP17 – Hybu datblygu masnachol

Caiff y polisi hwn ei fonitro gan dri ffactor ac mae dau ohonynt wedi cyrraedd y trothwy. Mae'r ffactor cyntaf yn ymdrin â gweithwyr cyflogedig yn y sector masnachol. Caiff y ffigur hwnnw ei ystyried ar sail cyfanswm nifer y gweithwyr. Mae nifer y gweithwyr cyflogedig yn y sector masnachol wedi parhau'n eithaf cyson drwy gydol cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf (sef y ddwy flynedd y mae'r polisi wedi cyrraedd y trothwy) cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfanswm nifer y gweithwyr cyflogedig, sydd wedi sgiwio'r canlyniad ac wedi cyflwyno ffigur monitro sydd ychydig yn uwch na'r trothwy. Mae'r polisi hwn wedi cyrraedd y trothwy o ganlyniad i lwyddiant polisiâu eraill, ac nid oherwydd bod y polisi yn methu.

Mae'r ail ffactor yn ymwneud â nifer y datblygiadau masnachol/manwerthu a ganiatwyd y tu allan i derfynau'r prif ganol trefi. Dyma ffactor arall sydd â throthwy uchelgeisiol, sef dim. Dylid nodi bod yr hierarchaeth ar gyfer datblygu masnachol yn caniatáu darpariaeth fanwerthu leol yn y rhan fwyaf o leoliadau ar draws y fwrdeistref sirol, a byddai'r math hwn o ddatblygiad yn peri i'r polisi gyrraedd y trothwy. Eleni, dim ond un cais a gafodd ei gymeradwyo y tu allan i derfynau'r prif ganol trefi, ac roedd hwnnw ar gyfer campfa ar Ystâd Ddiwydiannol Croespenmaen. Mae ystâd ddiwydiannol yn lleoliad derbyniol ar gyfer datblygiad masnachol megis campfa, ac er bod y polisi wedi cyrraedd y trothwy, yn yr achos hwn nid yw hynny wedi digwydd o ganlyniad i bolisi sy'n methu.

8.10 Er nad yw'r polisiâu uchod yn cyflawni'r amcanion yn ôl y disgwyl, maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion ac mae ffactorau allanol yn effeithio arnynt nad oes gan y Cynllun Mabwysiedig unrhyw reolaeth arnynt. O ganlyniad, nid ystyrir bod y polisiâu hyn yn methu.

8.11 Fodd bynnag, nodwyd nad yw dau o'r polisïau yn cael eu gweithredu'n effeithiol, sef SP14 – Holl ofynion o ran tai, ac SP15 – Targed ar gyfer tai fforddiadwy. Ceir cysylltiad anorfod rhwng y polisïau hyn, oherwydd bydd darparu tai'r farchnad ar safleoedd a nodwyd dan bolisi SP14 yn darparu tai fforddiadwy i fodloni'r targedau dan bolisi SP15. Dylid nodi bod bron 50% o nifer yr unedau a nodwyd ar gyfer cyfnod y cynllun wedi'u cyflawni hyd yn hyn. Nid yw hynny ond ychydig ar ei hôl hi o safbwynt cyfnod y cynllun (y mae dwy ran o dair o'i gyfnod wedi pasio erbyn hyn) ac felly gellid ystyried bod y mater yn cael ei symud yn ei flaen, ond yn arafach na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae angen ystyried y sefyllfa ochr yn ochr â'r ffaith nad oes gan y Cyngor y cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai (mae Adroddiad 2016 yn nodi bod ganddo gyflenwad 1.5 mlynedd o dir ar gyfer tai) a bod y ffigur yn llawer is na'r swm sy'n ofynnol. Mae'r cyflenwad pum mlynedd o dir yn ystyriaeth bwysig yng nghyswllt cynigion datblygu nad ydynt fel arall efallai'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu. Gallai'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir olygu bod cynigion o'r fath yn cael caniatâd yn dilyn apêl.

8.12 Mae TAN 1 yn mynnu bod cyflenwad tir ar gyfer tai'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull gweddilliol yn unig. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r dull gweddilliol yn cael effaith baradocsaidd, sef cyflenwad llai o dir yn ystod blynyddoedd pan fo cyfraddau adeiladu tai wedi bod yn isel, ac mae wedi arwain at sefyllfa lle mae Adroddiad 2016 yn nodi mai dim ond cyflenwad 1.5 mlynedd o dir sydd gan y fwrdeistref sirol.

8.13 Er bod y cyflenwad tir a gaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull gweddilliol wedi lleihau'n sylweddol – gan ostwng islaw'r lefel ofynnol, sef pum mlynedd, yn 2012 a pharhau i ostwng i'w sefyllfa yn 2016, sef 1.5 mlynedd – dylid nodi mai dim ond yn 2015 y gostyngodd y ffigur sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol islaw'r cyflenwad pum mlynedd

sy'n ofynnol. Mae'r ffigur ar gyfer 2016, sef 4.5 mlynedd, yn parhau ychydig yn is na'r ffigur gofynnol.

8.14 Er bod gwahaniaeth sylweddol rhwng ffigur y dull gweddilliol a ffigur y dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol, mae'r ddau ohonynt bellach yn is na'r ffigur sy'n ofynnol, sef cyflenwad pum mlynedd o dir. Er nad yw'r graddau y caiff tai eu darparu ymhell ar ei hôl hi o safbwynt cyfnod y cynllun, mae'r ffaith mai ychydig o dir sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer tai'n golygu bod y gwaith o ddarparu tai drwy'r cynllun datblygu'n cael ei beryglu'n sylweddol.

8.15 Canlyniad hyn yw bod llai o waith datblygu tai ar gyfer y farchnad yn digwydd, oherwydd amgylchiadau economaidd yn ogystal â sefyllfa'r CDLI, ac mae hynny wedi arwain at ddarparu cryn dipyn yn llai o dai fforddiadwy drwy ddatblygu safleoedd. Er y parheir i ddarparu tai fforddiadwy ar safleoedd penodol, mae'r niferoedd a ddarperir drwy ddatblygiadau ar gyfer y farchnad wedi lleihau'n sylweddol.

8.16 Felly, nodwyd nad yw'r polisïau hyn wedi'u gweithredu yn unol â strategaeth ddatblygu'r CDLI, a thrafodir camau i ddatrys y sefyllfa hon yn y bennod nesaf.



9. Argymhellion

9.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r ail bâr o ystyriaethau a nodir ym mharagraff 2.5.15 Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 8, sef:

- Y camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu,
- Ystyried a ddylid adolygu'r cynllun neu gyflwyno cynllun newydd yn ei le.

Argymhellion ynghylch camau gweithredu i sicrhau y caiff polisiau sy'n methu eu gweithredu

9.2 Mae proses Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 wedi nodi dau bolisi nad ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol, sef SP14 ac SP15, ynghyd ag un amcan nad yw'n cael ei gyflawni, sef amcan 9. Mae angen ystyried pa gamau y gall y Cyngor eu cymryd i sicrhau bod y polisiau a'r amcan yn cael eu gweithredu'n well. Mae'r ddau bolisi a'r amcan yn ymwneud â darparu tai, er eu bod yn ymdrin ag agweddau ychydig yn wahanol ar y mater. Mae pob un ohonynt yn methu oherwydd cyfuniad o'r un ffactorau, sef cyfraddau isel ar gyfer adeiladu tai, arferion buddsoddi lle ceir amharodrwydd i gymryd risg, a ffigurau isel iawn ar gyfer y cyflenwad tir ar gyfer tai, yn yr adroddiadau blynyddol. O gofio hynny, bydd y polisiau a'r amcan yn ymateb yn gadarnhaol i'r ymyriadau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. O ganlyniad, mae'n briodol ystyried y ddau bolisi a'r amcan gyda'i gilydd yn hytrach na mynd i'r afael â phob un ohonynt yn unigol.

9.3 Mae'r CDLI Mabwysiedig wedi llwyddo i ddarparu tai, ac mae ychydig yn llai na hanner gofyniad y CDLI o ran tai wedi'i ddatblygu yn ystod 10 mlynedd gyntaf y cynllun. Er bod hynny ychydig y tu ôl i'r gyfradd adeiladu flynyddol a ddisgwylir, nid yw mor bell ar ei hôl hi fel na allai'r sefyllfa ddychwelyd i'r gyfradd a ddisgwylir, o weld newid yn yr hinsawdd economaidd. Felly, nid oes modd dweud nad yw'r CDLI yn darparu tai neu fod y cynllun

wedi bod yn ddiffygiol iawn o safbwynt darparu tai drwy gydol ei gyfnod. Mae hwn hefyd yn gyfnod sydd wedi gweld y diwydiant adeiladu tai'n cael ei lethu'n barhaus oherwydd y dirywiad economaidd, sy'n ffactor sydd y tu hwnt i ddylanwad y CDLI. O ganlyniad, o safbwynt yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, ystyrir bod perfformiad y cynllun yn dderbyniol o gofio'r amodau economaidd.

9.4 Y prif ddangosydd sy'n nodi methiant y polisiau a'r amcan dan sylw yw'r ffigur ar gyfer y cyflenwad pum mlynedd o dir, a nodir drwy'r Adroddiadau Argaeledd Tir ar gyfer Tai blynyddol. Mae'r ffigur ar gyfer y cyflenwad pum mlynedd o dir yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ynghylch cynigion cynllunio. Os nad oes gan Gyngor gyflenwad pum mlynedd o dir, mae'n ffaith sy'n dod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Os yw Cyngor ymhell o fod yn bodloni'r gofynion ynghylch cyflenwad pum mlynedd o dir, gallai golli apeliadau ar sail y mater yn achos cynigion sydd fel arall yn mynd yn groes i'r cynllun datblygu.

9.5 Er bod y cyflenwad pum mlynedd o dir yn fater pwysig, ceir nifer o bryderon ynghylch y broses sy'n berthnasol iddo, sy'n gallu dylanwadu'n fawr ar faint o dir sydd ar gael ar gyfer tai. Yn gyntaf mae'r gwaith o gategoreiddio safleoedd, er mwyn gweld pryd y byddant yn cael eu gweithredu, yn eithrio safleoedd o'r cyflenwad pum mlynedd o dir oherwydd materion megis y ffaith eu bod mewn ardal lai hyfyw neu fod ganddynt gytundeb cyfreithiol heb ei lofnodi. Gall hynny eithrio safleoedd o'r cyflenwad pum mlynedd o dir, sydd fel arall yn barod ac ar gael i'w datblygu. Felly, nid yw'r gwaith categoriddio yn nodi argaeledd tir; mae'n fwy o adlewyrchiad o'r galw am dir.

9.6 Yr ail bryder yw'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigur, sef y dull gweddilliol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o TAN 1 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 yn mynnu bellach bod pob adroddiad yn cyfrifo argaeledd tir gan

ddefnyddio'r dull hwn yn unig. Mae'r dull gweddilliol yn ystyried y tir (safleoedd a ddyrannwyd ac a ganiatawyd) a fyddai'n cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod nesaf o bum mlynedd, ar sail y gyfradd adeiladu flynyddol sy'n ofynnol er mwyn bodloni gofyniad y CDLI yn llawn erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r dull hwn yn cael effaith baradoesaidd, sef bod llai o dir ar gael yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu tai yn isel a bod mwy o dir ar gael yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu'n uwch.

- 9.7** Cyn i TAN 1 gael ei ddiwygio, roedd adroddiadau blynyddol ynghylch Cychastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai hefyd yn ystyried argaeledd tir, a gâi ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol. Gan fod y dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau adeiladu, yn hytrach na'r lefelau adeiladu rhagamcanol a ddefnyddir yn y dull gweddilliol, gellid dadlau bod y dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn well.
- 9.8** Derbynnir nad oedd y cyfrifiad gan ddefnyddio'r dull gweddilliol na'r cyfrifiad gan ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi arwain at gyflenwad dros bum mlynedd o dir. Fodd bynnag, mae'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol wedi nodi cyfraddau uwch o argaeledd tir yn gyson o gymharu â'r dull gweddilliol, oherwydd bod cyfraddau adeiladu'r gorffennol wedi ystyried yr amgylchiadau economaidd a'r ffaith bod y diwydiant adeiladu'n cael ei lethu. Mae TAN 1 yn dileu'r gallu i ystyried y ddau ddull hyn wrth ystyried y cyflenwad tir, sy'n golygu bod argaeledd tir yn is nag y gallai fod fel arall.
- 9.9** Er gwaethaf y pryderon ynghylch dilysrwydd a dibynadwyedd y broses Argaeledd Tir ar gyfer Tai, y mae'r Cyngor yn lloïo Llywodraeth Cymru i'w newid, mae'r dull gweddilliol a'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn

dangos bod gan y fwrdeistref sirol lai na phum mlynedd o gyflenwad tir, ac mae angen mynd i'r afael â hynny.

- 9.10** Yr ymateb syml i bolisi diffygiol ar gyfer darparu tai yw cynyddu'r tir sydd ar gael i'w ddatblygu. Fel rheol, byddai hynny'n cael ei ystyried drwy adolygu'r Cynllun Mabwysiedig. Er i'r Cyngor ddechrau adolygu'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013, penderfynodd wedyn y dylid tynnu'r cynllun yn ôl, yn amodol ar gael cytundeb Gweinidogol, o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd i'r ymarfer ymgynghori ynghylch y Fersiwn Adnewo. O ganlyniad, er mwyn cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn y tymor byr, bydd nifer o ymyriadau neu gamau gweithredu eraill yn ofynnol a bydd angen iddynt fynd i'r afael â ffactorau allanol yn ogystal â'r mater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r tir a ganiateir ar gyfer tai.
- 9.11** Yn gyntaf, mae angen ystyried sut y gellir cyflwyno safleoedd a gaiff eu clustnodi ar hyn o bryd yn safleoedd nad oes modd eu datblygu yn ystod y cyfnod o bum mlynedd, a sut y gellir eu rhyddhau i'w datblygu. Dyma'r ddau brif fater sy'n atal safleoedd rhag cael eu datblygu: costau adfer safleoedd tir llwyd; a safleoedd sydd mewn lleoliadau anhwyfwr. Er y ceir dealltwriaeth a thystiolaeth dda ynghylch costau adfer safleoedd tir llwyd, y farn gyffredinol o ran darparu tai yw na ddylai tai gael eu clustnodi ond mewn ardaloedd lle mae'n hyfw i'r diwydiant datblygu adeiladu. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cynllun datblygu yn adnodd ymyraethol sy'n ymyrryd yn y farchnad er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae llawer o breswylwyr y fwrdeistref sirol yn byw mewn ardaloedd llai hyfw, mewn cymunedau sydd dan fygythiad oherwydd diffyg buddsoddi a datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn ceisio hybu cyfleoedd newydd sy'n ymwneud â thai a chyfflogaeth yn yr ardaloedd hynny, er mwyn cydymffurfio â'r gofyn sydd arno i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, oherwydd gall datblygu yn yr ardaloedd hynny atgyfnerthu cymunedau a sicrhau

bod gwasanaethau sydd dan fygythiad yn parhau. Fodd bynnag, derbynnir hefyd na fydd datblygu'n digwydd lle nad yw hynny'n hyfyw. Felly, dim ond mewn ardaloedd lle mae cyllid ar gael i bontio'r bwlch o ran hyfywedd y bydd datblygu'n digwydd. Mae'r Cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno systemau cyllid grant er mwyn cael gwared â ffactorau sy'n rhwystro'r gwaith o ddatblygu safleoedd tir llwyd priodol, a chynnig cymhellion ar gyfer safleoedd sydd mewn ardaloedd llai hyfyw.

- 9.12** Yn ogystal, mae'r Cyngor yn rhagweithiol o safbwynt y modd y mae'n ymdrin â datblygu ar ei dir ei hun. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system ariannu arloesol ar gyfer rhyddhau cyfleoedd datblygu ar ei safleoedd, drwy amrywio sut a phryd y caiff safleoedd eu prynu i'w datblygu gan ddatblygwyr.
- 9.13** Yn olaf, er mwyn i'r Cyngor wella ei sefyllfa o ran argaeledd tir ar gyfer tai, bydd angen iddo gynyddu nifer y safleoedd y gellir adeiladu arnynt yn ystod y cyfnod nesaf o bum mlynedd. Fel y nodir uchod mae hynny fel rheol yn digwydd drwy adolygu'r cynllun, ond nid yw bellach yn ffordd o weithredu a fydd yn helpu yn y tymor byr. Felly, yr unig ffordd y gall y Cyngor wella'r sefyllfa o ran argaeledd tir yn uniongyrchol yw drwy gymeradwyo safleoedd newydd ar gyfer tai, sydd y tu hwnt i'r dyraniadau yn y Cynllun Mabwysiedig. Mae'n debygol iawn y bydd safleoedd o'r fath yn safleoedd annisgwyl neu'n safleoedd ar gyrion aneddiadau, sy'n aml y tu allan i derfynau'r aneddiadau ac sydd o'r herwydd yn mynd yn groes i bolisiau'r Cynllun Mabwysiedig. Bydd angen i'r Cyngor ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau o'r fath yn ofalus, gan sicrhau cydbwysedd fesul achos rhwng cynaliadwyedd a manteision ac anfanteision cynigion datblygu.
- 9.14** Gan ddefnyddio'r holl fesurau uchod, gallai'r Cyngor wella lefelau cyflawni o ran datblygu tai, y mae'r polisiau a'r amcan dan sylw yn ceisio ei sicrhau, nes y gellir mabwysiadu cynllun newydd i ddisodli'r cynllun cyfredol.

A ddylid adolygu'r Cynllun Mabwysiedig?

- 9.15** Roedd Adroddiad Monitro Blyneddol 2013 yn argymhell y dylid adolygu'r Cynllun Mabwysiedig am ddau reswm, sef oherwydd yr angen i ddyrannu safleoedd ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir. Penderfynodd y Cyngor ddechrau adolygu'r cynllun ym mis Hydref 2013. Paratôdd y Cyngor gytundeb cyflenwi, y cytunodd Llywodraeth Cymru arno, a bu'r adolygiad o'r cynllun yn destun ymgynghoriad statudol chwe wythnos o hyd ddechrau 2015 ynghylch y strategaeth a ffefrir a'r strategaeth amgen. Ar 3 Chwefror 2016 penderfynodd y Cyngor gymeradwyo Fersiwn Adneuo'r CDLI Newydd yn sail ar gyfer y cyfnod ymgynghori statudol chwe wythnos o hyd ynghylch y Fersiwn Adneuo, a ddechreuodd ar 11 Chwefror 2016 ac a ddaeth i ben ar 22 Ebrill 2016.
- 9.16** Mae Rheoliad 17 y Rheoliadau CDLI yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried yr holl sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnodau ymgynghori ynghylch y cynlluniau datblygu. O ystyried yr ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod adneuo ac o ystyried yr agenda rhanbarthol sy'n datblygu'n gyflym hefyd, penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2016 i:
- ***Dynnu Fersiwn Adneuo CDLI Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2031 yn ôl yn ffurfiol, yn amodol ar gael cymeradwyaeth Weinidogol.***
 - Gofyn am drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol.
 - Gofyn am gyfarfod brys â Gweinidog Llywodraeth Cymru er mwyn:
 - Rhoi gwybod am y bwriad i dynnu Fersiwn Adneuo'r CDLI Newydd yn ôl
 - Gofyn am gymorth i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar frys

- Trafod pwysigrwydd cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i ryddhau'r safleoedd tir llwyd sy'n weddill ar draws y fwrdeistref sirol
- Trafod diddymu'r dull gweddilliol o gyfrifo'r cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, fel y nodir ar hyn o bryd yn TAN 1.

9.17 Yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2016, cynhaliodd yr Arweinydd ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Adfywio, yr Aelod Cynulliad dros Gaerffili, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Cymru ac uwch-weision sifil ar 28 Medi 2016.

9.18 Cadarnhawyd yn y cyfarfod nad yw cael cymeradwyaeth Weinidogol i dynnu cynllun yn ôl yn un o ofynion y Rheoliadau CDLI ar hyn o bryd, a bod tynnu'r CDLI Newydd yn ôl yn fater i'r Cyngor benderfynu yn ei gylch. Ni fynegodd Gweinidog Llywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad ffurfiol i'r bwriad i dynnu'r cynllun yn ôl, ond mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r Cyngor fod yn agored i benderfyniadau cynllunio a wneir yn dilyn apêl yn ystod y cyfnod hwn.

9.19 O ran y cyflenwad pum mlynedd o dir a chyllid posibl i gynnig cymhellion i ddatblygu tir llwyd a datblygu mewn ardaloedd llai hyfyw, cytunwyd y byddai cyfarfod arall yn cael ei drefnu rhwng y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ac uwch-weision sifil o Lywodraeth Cymru i drafod y materion ymhellach.

9.20 Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau CDLI, mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor basio penderfyniad penodol i dynnu'r CDLI Newydd yn ôl yn ffurfiol. Yna, caiff y cynllun ei dynnu'n ôl yn unol â gofynion Rheoliad 26 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

9.21 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 yn dod i'r casgliad canlynol ac yn argymhell y canlynol:

A1 - Dylid parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r Cynllun Datblygu Mabwysiedig, sy'n sicrhau manteision i'r amgylchedd.

A2 - Dylai'r Cyngor barhau i geisio paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn gynnar ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

A3 - Bydd angen i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai drwy weithredu'n rhagweithiol, a fydd yn cynnwys:

- Ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl newydd ar sail eu rhinweddau cynllunio cymharol fesul achos, a rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai'n unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol;
- Lobio Llywodraeth Cymru i sefydlu systemau ariannu i gynnig cymhellion ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd llai hyfyw a hybu'r gwaith o adfer safleoedd tir llwyd sy'n addas i'w datblygu;
- Defnyddio'r model ariannu arloesol i gyflwyno safleoedd sydd â phroblemau hyfywedd, sy'n eiddo i'r Cyngor;
- Lobio Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r broses sy'n ymwneud ag argaeledd tir ar gyfer tai.

ATODIAD 1: DANGOSYDD GORFODOL – NIFER YR ANHEDDAU NEWYDD A GWBLHAWYD A'R CYFLENWAD TIR AR GYFER TAI

| Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd. Nifer y tai preifat a nifer y tai fforddiadwy a'r cyflenwad tir ar gyfer tai | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|--------------|
| | 2007 JHLAS Ebr. 2006 Maw.2007 | 2008 JHLAS Ebr. 2007 Maw.2008 | 2009 JHLAS Ebr. 2008 Maw.2009 | 2010 JHLAS Ebr. 2009 Maw.2010 | 2011 JHLAS Ebr. 2010 Maw.2011 | 2012 JHLAS Ebr. 2011 Maw.2012 | 2013 JHLAS Ebr. 2012 Maw.2013 | 2014 JHLAS Ebr. 2013 Maw.2014 | 2015 JHLAS Ebr. 2014 Maw.2015 | 2016 JHLAS Ebr. 2015 Maw.2016 | Total |
| Sector preifat | 835 | 554 | 265 | 189 | 241 | 275 | 236 | 189 | 273 | 84 | 3141 |
| Cymdeithasau tai/ Sector cyhoeddus | 17 | 102 | 122 | 111 | 117 | 115 | 108 | 162 | 92 | 68 | 1014 |
| Cyfanswm | 852 | 656 | 387 | 300 | 358 | 390 | 344 | 351 | 414 | 187 | 4239 |
| Cyflenwad tir Dull gweddilliol | 17.3* | 22.5* | 21.2* | 14.2* | 4.3 | 3.5 | 2.9 | 2.5 | 1.9 | 1.5 | |
| Cymerwyd y ffigurau o Gydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) | | | | | | | | | | | |
| * Y ffigurau a gyflawnwyd dan CDU Caerffili (cafodd y CDLI ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2010) | | | | | | | | | | | |

ATODIAD 2: TROSOLWG O WAITH MONITRO'N YMWNEUD Â'R ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL/ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

| Amcan | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|--|------|------|------|------|------|------|
| Lleihau'r adnoddau y mae pob preswlydd yn eu defnyddio ar gyfartaledd | X | DNA | NM | NM | NM | NM |
| Gwella cyflwr tai a sicrhau bod yr ystod o wahanol fathau o dai'n hygyrch er mwyn diwallu anghenion y preswylwyr | + | + | + | + | ++ | X |
| Lleihau nifer yr achosion o droseddu | + | X | X | + | + | + |
| Gwella cyflawniad addysgol | XX | X | + | + | X | X |
| Caniatáu cyfle cyfartal i bawb | NM | NM | NM | NM | NM | NM |
| Cynyddu canran y bobl o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth | XX | ++ | O | O | XX | + |
| Cynyddu cyfoeth unigolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | DDAG | X | X | + | O | O |
| Sicrhau bod ystod ddigonol o safleoedd cyflogaeth ar gael | DDAG | X | X | ++ | O | O |
| Gwella iechyd unigolion | XX | X | O | ++ | O | + |
| Sicrhau bod poblogaeth y fwrdeistref sirol yn parhau o leiaf ar ei lefelau presennol, a sicrhau strwythur demograffig mwy cytbwys? | DDAG | + | + | ++ | X | O |
| Sicrhau bod modd i'r holl breswylwyr gael mynediad yn hawdd i gyfleusterau hamdden | DDAG | + | ++ | + | ++ | + |
| Lleihau llygredd aer, sŵn, golau ac arogleuon a sicrhau bod ansawdd yr aer yn gwella | + | O | O | X | + | ++ |
| Gwarchod y gwerth o ran tirwedd sy'n perthyn i dirweddau pwysigaf y fwrdeistref sirol, a chynnal amgylchedd glân a hygyrch er mwyn annog ymdeimlad mwy helaeth o berthyn | DDAG | X | O | O | X | + |
| Gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol y fwrdeistref sirol | DDAG | + | X | O | + | + |
| Gwarchod a gwella asedau hanesyddol pwysig | + | ++ | ++ | O | + | ++ |
| Gwarchod dyfrhaenau a gwella ansawdd a lefel y dŵr sydd yn ein hafonydd, a lleihau'r dŵr a ddefnyddir | ++ | O | DDAG | O | ++ | + |
| Lleihau i'r eithaf nifer y datblygiadau y mae llifogydd yn effeithio arnynt | X | O | O | + | X | X |
| Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a lleihau achosion o halogi, a diogelu swm, ansawdd a hydreiddedd pridd | + | X | O | O | XX | O |
| Gwarchod safleoedd pwysig o safbwynt daearegol a gwella eu hygyrchedd | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ |
